Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 08 Mai 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd D Potter (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, M Rees and H Williams.

(7.00pm- 8.05pm)

**1 Ymddiheuriadau**
Dim.

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorydd J Davies fuddiant personol o ran eitem xx

Datgelodd y Clerc, Dana Jones, fuddiant o ran eitem 11.01 a gadawodd yr ystafell pan drafodwyd yr eitem honno.

**3 Datganiad o Dderbyn Swydd ac Ymrwymo i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad**
Llofnododd pob Aelod y datganiad o dderbyn swydd a'r ymrwymiad i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad, a hynny ym mhresenoldeb y Swyddog Priodol.

**4 Cadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Fwrdeistrefol 2017-18**
**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Daniel Potter yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2017-18. Llofnododd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Daniel Potter, y Datganiad o Dderbyn Swydd.

**Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Fwrdeistrefol 2017-18**
**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Julian Evans yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2017-18 (dymunai'r Cynghorydd aros blwyddyn cyn derbyn swydd yr Is-gadeirydd)

**5 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017**
5.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017 yn rhai cywir.

**6 Materion yn codi**
Roedd y teulu wedi gwneud cais i osod plac er cof am Neli. Roeddent wedi gofyn am ei roi ar y fainc y bu Neli'n eistedd arni ar Sgwâr Ucheldir. Byddai'r Cynghorydd D Potter yn anfon llun at y Clerc i'w anfon ymlaen i'r Cyngor Sir.

Soniodd y Clerc ei bod wedi cael sgwrs ag Andy Bligh o'r Cyngor Sir ynglŷn â phwy oedd yn berchen ar y meinciau, ac roedd y Cynghorydd B Stones wedi cytuno i gwrdd ag ef i lunio map o'r meinciau'r oedd Cyngor y Dref yn berchen arnynt, a'r rhai hynny oedd yn eiddo i'r Cyngor Sir.

98.05 Dywedodd y Cynghorydd J Davies y byddai'n peintio arwydd Cyngor Dosbarth Trefol Cei Newydd. Byddai'r Cynghorydd J Evans yn darparu'r paent.

Gofynnid eto i'r Cyngor Sir am arwyddion newydd, mwy o faint i hysbysu pobl y gwaherddid

cŵn ar y traeth mawr.

98.06 Roedd y Cynghorwyr G Hopley a P Hopley wedi codi baner y Ddraig Goch o’r newydd, wedi trwsio’r bwrdd Dylan Thomas, ac wedi chwynnu’r potiau ar Sgwâr Ucheldir a phlannu blodau newydd. Rhoddwyd diolch i’r ddau ohonynt am eu gwaith.

104.04 Byddai’r Cynghorydd Potter yn cysylltu â’r contractwr ynglŷn â phaentio’r rheiliau.

103.01 Ni chafwyd unrhyw wybodaeth oddi wrth Ysgol Cei Newydd o ran y cyfarpar oedd ofynnol a’r prisiau. Anfonid e-bost arall at y Pennaeth.

105.03 – Gofynnid i’r Cyngor Sir am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â’r pyst.

**7 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Dim byd i’w adrodd ar ôl yr etholiadau diweddar.

**8 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo’r taliadau canlynol o’r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £33,044.33 (£1012.66 wedi’i roi o’r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
8.01 Cyflog a Threuliau’r Clerc £265.00
8.02 Cyflog yn ddyledus i’r Clerc £196.64 (mis Ebrill a mis Mai i gynnwys y codiad cyflog cenedlaethol)
8.03 Yswiriant £1111.46
8.04 Rhent yr Amgueddfa £900.00
8.05 Cyflog yn ddyledus i’r Clerc ar gyfer 2016-17 £174.00

Balans Terfynol £xxx3 (£1012.66 wedi’i roi o’r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £xxx

Adolygu Cyllideb mis Mai

Noder y derbyniwyd rhandal cyntaf y praesept, sef £10,715.09

**8.05 Cyfrifon 2016/17**

**9 Ceisiadau Cynllunio.**
9.01 A170281 - 1 Gerddi’r Ffynnon, Heol yr Eglwys, Cei Newydd - NODWYD

**10 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**11 Gohebiaeth**
Ystyriwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
11.01 Cais am gymorth ariannol oddi wrth Ysgol Bro Siôn Cwilt – PENDERFYNWYD rhoi £250.00.

**12 Materion Brys i'w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**
12.01 Dywedodd y Cynghorydd H Williams fod angen cael gwared â'r slab concrit o dan yr hen finiau, gan fod yr hoelion metel yn beryglus. Hysbysid y Cyngor Sir o hynny. Yn y cyfamser, câi'r slabiau eu troi ar ben i lawr.

Gofynnodd y Clerc am farn yr Aelodau ynglŷn â'r biniau newydd ar y traeth. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn llawer gwell na'r hen rai. Diolchodd y Cynghorydd M Rees i'r Cyngor Sir am ddarparu'r biniau ar ôl iddo gwyno dro ar ôl tro.

Mynegwyd pryder am wydr ar y traeth ar ôl i bobl gael partïon. Byddai sôn am hyn ar Dudalen Wybodaeth Cei Newydd.

Soniodd y Cynghorydd J Evans fod grant ar gael ar gyfer prosiect y Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi ymchwilio i hyn.

Cyflwynwyd cais newydd i Galonnau Cymru am beiriant adfywio calonnau, yn dilyn digwyddiad yn Llanina. Cynigiodd y Cynghorydd Evans y dylid rhoi'r peiriant ar Heol Francis. Prynid blwch ar gyfer y peiriant gyda'r arian yr oedd y Cyngor wedi'i neilltuo, a gofynnid i'r Clwb Bowls gyfrannu hefyd.

Mynegodd yr Aelodau bryder am y byddai safle gwastraff Rhydeinion yn cau. Anfonid llythyr at Swyddogion y Cyngor Sir, gan na fu unrhyw ymgynghori â chynghorau tref a chymuned.

**13 Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 30 Mai 2017 am 7.00pm

**14 CAU ALLAN Y CYHOEDD A'R WASG**
Mae'r eitem isod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 7.6 (a), Cyfrinachedd a Mynediad i Ddieithriaid, o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.

Wrth drafod yr eitem hon, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ddylid cau allan y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

**14.01 Adroddiad y Clerc –** cyflwynodd y Clerc adroddiad ynglŷn â'i chyflog o 2016-17 ymlaen, gan ei bod wedi derbyn cyflog ar y raddfa anghywir. Dywedodd ei bod wedi ceisio cyngor Un Llais Cymru a'u bod wedi dweud y gallai gyflwyno adroddiad ac y gallai'r Cyngor ystyried ei chais. Ar ôl trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau dalu'r cyflog oedd yn ddyledus i'r Clerc ar gyfer 2016-17, sef £174.00.

Minutes of a **Meeting** of the Annual Meeting of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 08 May 2017**

PRESENT: Councillor D Potter (Chairman), Councillor
J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, M Rees and H Williams

(7.00pm- 8.05pm)

**1 Apologies**
None.

**2 Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
Councillor J Davies declared a personal interest in xx

The Clerk, Dana Jones declared an interest in 11.01 and vacated the room during discussion of this item thereon.

**3 Declaration of Acceptance of Office and an Undertaking to comply with the Code of Conduct**
All Members signed the acceptance of office and the undertaking to comply with the code of conduct in the presence of the proper officer.

**4 Chairman of the Council for the ensuing Municipal Year 2017-18**
It was **RESOLVED** that Councillor Daniel Potter be elected Chairman of the Council in 2017-18. The newly-elected Chairman, Councillor Daniel Potter, signed the Declaration of Acceptance of Office.

**Vice-Chairman of the Council for the ensuing Municipal Year 2017-18**
It was **RESOLVED** that Councillor Julian Evans be elected Vice-Chairman of the Council in 2017-18. (Councillor Gill Hopley wished to defer your position as vice-chair for one year)

**5 Minutes of the Meeting held on 20 March 2017**
5.01 The Minutes of the meeting of the 20 March 2017 were confirmed as a true record.

**6 Matters arising**
A request for a plaque in memory of Neli had been requested by her family. They had requested that it be placed on the bench which she sat on in Uplands Square. A photo of the bench would be sent by Councillor D Potter to the clerk to forward to CCC.

The Clerk reported that he had spoken to Andy Bligh in CCC regarding the ownership of the benches and Councillor B Stones had agreed to meet with him to map out the location of the benches in the ownership of the Town Council and County Council.

98.05 Councillor J Davies reported that the would paint the New Quay District Council sign. Paint would be supplied by Councillor J Evans.

New larger signs informing the public of the dog ban on the main beach would be

requested again from County Council.

98.06 Councillor G Hopley and P Hopley had erected a new Welsh flag, repaired the Dylan Thomas board and weeded the pots and planted new flowers in Upland Square. Both were thanked for their work.

104.04 Councillor Potter would contact the contractor regarding the painting of the railings.

103.01 Information regarding the equipment required and the costs had not been received to date by New Quay School. A further email would be sent to the Head teacher.

105.03 – An update on the bollards would be requested from CCC

**7 County Councillor's Report**

No update following the recent elections.

**8 Finance**

It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

Finance

Opening Balance £33,044.33 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

8.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
8.02 Clerk back pay £196.64 (April & May to take into account national pay increase)
8.03 Insurance £1111.46
8.04 Museum Rent £900.00
8.05 Clerk back pay for 2016-17 £174.00

Closing Balance £xxx3 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £xxx

The Review of the Budget for May

Please note that the first instalment of the precept has been received of £10,715.09

8.05 Accounts 2016/17

**9 Planning Applications.**

9.01 A170281 - 1 Spring Gardens, Church Street, New Quay- NOTED

**10**

**Planning decisions**

None.

**11 Correspondence**

Consideration was given to the following:-

11.01 Finance request from Bro Siôn Cwilt School- it was AGREED to donate £250.00

**12 Urgent items – discretion of the Chair**
12.01 Councillor H Williams reported that there was a need to remove the concrete slab under the old bins as there was metal studs which were hazardous. This would be reported to CCC. In the short term, the slabs would be turned over.

The Clerk requested members feedback regarding the new bins on the beach. Members stated that they were a vast improvement. Cllr M Rees thanked the County Council for providing the new bins following his numerous complaints.

Concerns were raised regarding glass on the beach following parties. This would be highlighted on New Quay Information Page.

Councillor J Evans reported on a grant available for the FLAG project. This avenue had already been sought by the Committee.

A new application for a defibrillator had recently been submitted to Calonnau Cymru following an event in Llanina. It was proposed by Councillor Evans that the defibrillator be located in Francis St. A box for the defibrillator would be purchased from the monies ring fenced by the Council and also the Bowling Club would be requested to contribute.

Members raised concern that the Rhydeinion Civic amenity site was closing. A letter would be sent to Officers in CCC as there had not been any consultation with the community/town Councils.

**13 Arrangements for the next meeting**
It was agreed that the next meeting would be held on Tuesday, 30 May 2017 at 7.00pm

**14 EXCLUSION OF PUBLIC AND PRESS**
The item below contains exempt information as defined under paragraph 7.6 (a) of the Confidence and Admission of strangers, Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960.

Members will be requested, when dealing with the item to consider whether to exclude the public and press from the Meeting

**14.01 Clerks' report –** the clerk presented a report regarding her pay as from 2016-17 as she had been paid on the incorrect pay scale. She reported that she had contacted One Voice Wales for advice and they had informed her that she was able to present a report and that the Council could consider her request. Following discussion; Members agreed to pay the backdated pay for the Clerk for 2016-17 £174.00.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR TREF CEI NEWYDD** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 30 Mai 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd D Potter (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, G Hopley, P Hopley, A Jones, ac H Williams.

(7.00pm- 8.35pm)

**15 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr S Hartley, M Rees ac B Stones am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**16 Materion Personol**
Ymddiheurodd y Cadeirydd am iddo beidio â diolch i'r cyn-Gynghorydd Sir, G Hopley, yn y cyfarfod blaenorol am ei holl waith a'i hymroddiad i Gei Newydd yn ystod ei chyfnod yn y swydd.
Mewn ymateb, diolchodd hithau i'r Cadeirydd gan ddweud ei bod yn falch o'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni yng Nghei Newydd, gan gynnwys achub yr orsaf ambiwlans ac Ysgol Cei Newydd rhag cau, creu llwybr Dylan Thomas; creu Coed Maes y Pwll, gwella'r Ffordd Newydd, swyddfa'r Harbwr Feistr a'r ganolfan chwaraeon dŵr. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Sir newydd yn y dyfodol.

**17 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorydd D Potter fuddiant personol o ran eitem 24.01 gan ei fod yn llywodraethwr.

**18 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2017**
18 .01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2017 yn rhai cywir.

**19 Materion yn codi**
6.01 Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Gwasanaethau Technegol ynglŷn â'r plac i goffau'r diweddar Neli Williams.
6.02/98.05 Dywedodd y Cynghorydd J Davies y byddai'n ail-baentio'r arwydd yr wythnos ar ôl hanner tymor.
6.04/104.04 Soniwyd fod rhywun wedi paentio'r rheiliau, ond sylwyd fod gwaelod y rheiliau mewn cyflwr gwael. Eid ati i gael prisiau ar gyfer rheiliau newydd faes o law.
9.01 Roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi rhoi caniatâd cynllunio.
11.01 Derbyniwyd cerdyn a llythyr o ddiolch oddi wrth Ysgol Bro Siôn Cwilt am rodd y Cyngor.
12.01 Nid oedd neb wedi mynd â'r slabiau concrit o'r traeth fel y gofynnwyd. Byddai'r Cynghorwyr Potter a Davies yn eu symud dros dro ac yn hysbysu'r Cyngor Sir.
12.02 Mynegwyd pryderon am y biniau newydd. Awgrymwyd y gellid eu rhoi rhwng y caffi ar y traeth a chwt y Bad Achub, gan nad oedd y môr yn cyrraedd mor bell â hynny adeg penllanw. Soniwyd hefyd fod llawer o'r biniau'n orlawn yn ystod Gŵyl y Banc. Byddai'r Clerc yn hysbysu'r Cyngor Sir ac yn cysylltu â'r Cynghorydd Potter i drafod y mater ymhellach. Cafwyd trafodaeth hefyd am bryderon y Cynghorydd Stones ynglŷn â'r biniau cochion, ond rhagwelwyd y byddai eu symud neu gael gwared arnynt yn peri i bobl roi barbeciws yn y biniau plastig, gan achosi mwy o danau. Rhoddid neges ar dudalen Gwybodaeth Cei Newydd i hysbysu'r Cyngor na ddylent roi sbwriel yn y biniau barbeciws,

ynghyd ag arwyddion gan y Cyngor Sir.
12.04 Roedd y Clwb Bowls wedi cytuno i dalu £150.00 tuag at flwch i'r peiriant adfywio calonnau, a byddai'r gweddill yn dod o'r swm oedd wedi'i neilltuo yng nghyfrif y Cyngor.

**20 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Fe dyngodd ei lw ar 9 Mai.
20.01 Bu'n bresennol mewn pum cyfarfod, gan gynnwys cwrdd â thrigolion *Schooner Park* i drafod goryrru. Byddai'r defnyddwyr yn cael mwy o hyfforddiant faes o law.
20.02 Cyfarfu â Rob Morgan o gwmni Atkins i drafod mynediad i bobl anabl ar y pier, daethpwyd o hyd i ffynhonnell gyllid a chyflwynid datganiad o ddiddordeb erbyn 9 Mehefin.
20.03 Aeth i safle'r mast arfaethedig ym Mhanteg a siarad â'r trigolion. Nid oedd ganddynt wrthwynebiad.
20.04 Roedd Peter y *Watchhouse* wedi cytuno i dwtio'r llain y tu ôl i'w fusnes yn yr wythnosau nesaf, a phenderfynwyd hefyd y byddai'r Cynghorydd J Davies yn paentio hen arwydd y Cyngor Dosbarth Trefol a fyddai'n dod i'r amlwg ar ôl torri'r llystyfiant.

**21 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £30,593.87 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
21.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
21.02 Ysgol Bro Siôn Cwilt £250.00
21.03 Iori Evans £75.00
21.04 Treuliau'r Maer £200.00
21.05 Llogi'r Neuadd £45.00

Credydwyd £40.00 mewn rhoddion o'r amgueddfa.

Balans Terfynol £29,798.87 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £28,286.21

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Mai fel y'i cyflwynwyd.

**22 Ceisiadau Cynllunio**
A170372 – nid oedd Cyngor y Dref yn cefnogi'r cais gan fod yr Aelodau o'r farn bod pob safle busnes yn hanfodol i'r dref, ac y dylid glynu at bolisïau LU21 a 22.

**23 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**24 Gohebiaeth**
Ystyriwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
24.01 – Rhestr o'r eitemau y dymunai Ysgol Cei Newydd eu prynu. Penderfynwyd rhoi £1043.28 tuag atynt.
24.02 – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol – penderfynwyd mabwysiadu'r polisi fel y'i

cyflwynwyd.
24.03 – Parc Sgrialu – Gofynnodd y Cynghorydd Potter am gydsyniad yr Aelodau i gael criw o wirfoddolwyr i dacluso’r parc. Cytunodd yr holl Aelodau â hynny.
24.04 – Cronfa Datblygu Porthladdoedd 2017-2018 – roedd y Cynghorydd Potter eisoes wedi rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf.
24.05 – Penodi llywodraethwr Ysgol Cei Newydd – penderfynwyd gofyn i’r Cyngorydd Stones ystyried ymgymryd â’r swydd.
24.06 – Nododd yr Aelodau’r Ffurflen Adrodd Problemau – Gwasanaethau Technegol
24.07 – Penderfynwyd gohirio’r eitem hon gan nad oedd y Cynghorwyr Hartley a Stones yn bresennol.

**25 Trefniadau’r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 26 Mehefin 2017 am 7.00pm

**26 Materion Brys i’w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**
26.01 Soniwyd fod hollt yn y concrit ger rheiliau Penwig (wrth y toiledau cyhoeddus) – byddai’r Cynghorydd Potter yn anfon llun at y Clerc i’w anfon ymlaen i’r Cyngor Sir.
26.02 Trafodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Rees-Tom. Penderfynwyd na fyddai’n briodol cefnogi’r cais yn yr e-bost.
26.03 Mynegwyd pryderon am chwyn o amgylch y dref. Byddai’r Cynghorydd Potter yn tynnu lluniau o’r mannau gwaethaf. Awgrymwyd fod yr Aelodau a phobl leol yn chwynnu’r mannau perthnasol, gan nad oedd gan y Cyngor Sir arian i ddatrys y broblem. Byddai’r Cynghorydd Potter yn mynd ati i ffurfio grŵp a byddai’r Clerc yn cysylltu â Chadwch Cymru’n Daclus i geisio cyngor. Rhoddid neges hefyd ar Dudalen Wybodaeth Cei Newydd.
26.04 Byddai’r Cynghorydd A  Jones yn holi am brisiau sialc ar gyfer yr arwyddion baw cŵn.
26.05 Roedd yr Aelodau’n pryderu am fod y toiledau cyhoeddus ger y ganolfan chwaraeon dŵr wedi cau dros Ŵyl y Banc. Serch hynny, roedd Rheolwr y Ganolfan wedi agor y toiledau ac roedd y Cynghorydd J Davies wedi’u glanhau ar ddiwedd y dydd. Awgrymodd y Cynghorydd J Davies y dylai’r toiledau cyhoeddus fod yng ngofal y ganolfan, fel y gofynnwyd yn y gorffennol. Holid barn Rheolwr y Ganolfan ar hynny cyn cysylltu â’r Cyngor Sir.
26.06 Cafodd y Cynghorydd J Davies gyfarfod â’r Cyngor Sir ynglŷn â’r tollfyrddau.

Minutes of a **Meeting** of the **NEW QUAY TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 30 May 2017**

PRESENT: Councillor D Potter (Chairman), Councillor
J Davies, J Evans, G Hopley, P Hopley, A Jones, and H Williams

(7.00pm- 8.35pm)

**15 Apologies**
Councillor S Hartley, M Rees and B Stones apologised for their inability to attend the meeting.

**16 Personal Matters**
The Chairman apologised for not thanking the previous County Councillor, G Hopley at the last meeting for all her work and commitment to New Quay during her term.
In response, she thanked the Chair and stated that she was proud of her achievements in New Quay during her term such as saving the ambulance station and New Quay School from closure, the creation of the Dylan Thomas trail; creation of the Maes y Pwll Woodland, the New Road improvements, Harbourmaster office and Water Sports. She wished the new County Councillor well in the future.

**17 Declaration of Personal/Prejudicial Interest**
Councillor Potter declared a personal interest in 24.01 as he is a governor.

**18 Minutes of the Meeting held on 08 May 2017**
18 .01 The Minutes of the meeting of the 08 May 2017 were confirmed as a true record.

**19 Matters arising**
6.01 The Clerk would contact Technical Services regarding the plaque for the late Neli Williams.
6.02/98.05 Councillor J Davies reported that she would be painting the sign next week following half term
6.04/104.04 It was reported that the railings had been painted, however, the bottom part of the railings were in a poor state, an alternative railing cost would be sought in due course
9.01 Planning had been granted by Ceredigion County Council
11.01 A card and a letter of thanks had been received from Ysgol Bro Sion Cwilt thanking the Council for their donation
12.01 The concrete slabs had not been removed from the beach as requested. Councillor Potter and Davies would remove them temporary and inform CCC accordingly
12.02 Concerns were raised regarding the new bins, it was suggested that they would be relocated between the beach café and the RNLI hut as the sea did not reach that area during high tides. It was also reported that several bins were overflowing over the Bank Holiday. The Clerk would inform CCC and to contact Councillor Potter to discuss the matter further. The concerns raised by Councillor Stones regarding the red bins was also discussed, however, it was agreed that if it was removed/relocated , it was envisaged that the barbecues would be placed in the plastic wheelie bins and cause further fires. A message would be placed on NQ Info page informing the public not place refuse in the BBQ bins together with signage from CCC.

12.04 The Bowling Club had agreed to pay £150.00 towards a defibrillator box, the remaining cost would be paid from the ring fenced amount in the Councils' account

**20 County Councillor's Report**

Was sworn in on the 9th of May.

20.01 Have attended five meetings to include a meeting with the residents of Schooner park regarding speeding issues. Users were due to receive further training

20.02 Met with Rob Morgan, Atkins regarding a disabled access on the pier, a funding avenue had been sought and an expression of interest would be submitted by the 9th of June

20.03 Been on site regarding the Panteg mast and spoke to residents, they had no objection

20.04 Peter Watch house had agreed to trash the area behind his business in the next few weeks, it was also agreed that Councillor J Davies would paint the old district sign which would become visible following the trashing

**21 Finance**

It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

Finance

Opening Balance £30,593.87 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

21.01 Clerk Salary & Expenses £265.00

21.02 Ysgol Bro Sion Cwilt £250.00

21.03 Iori Evans £75.00

21.04 Mayrol Expenses £200.00

21.05 Hall Hire £45.00

Credit of £40.00 from museum donations

Closing Balance £29,798.87 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £28286.21

The Review of the Budget for May was AGREED.

**22 Planning Applications**

A170372- TC do not support this application as they are of the opinion that all business premises are vital in the Town and we should adhere to policy LU21 and 22

**23**

**Planning decisions**

None.

**24 Correspondence**

Consideration was given to the following:-

24.01 –The list of items NQ school wished to purchase. It was agreed to donate £1043.28,

the cost of the items.
24.02 – Social Media Policy – It was agreed to adopt the policy as presented.
24.03 – Skateboard Park – Councillor Potter sought approval from Members regarding getting a group of volunteers to tidy the park. All Members agreed to this.
24.04 – Ports Development Fund 2017-2018 – Councillor Potter had already provided an update
24.05 – Appoint a school governor to New Quay School – It was agreed that Councillor Stones would be requested to consider the role
24.06 – Members noted the Problem Reporting Form – Technical Services
24.07 – It was agreed to defer the item as both Councillor Harltey and Stones were not present at the meeting.

**25 Arrangements for the next meeting**
It was agreed that the next meeting would be held on Monday, 26 June 2017 at 7.00pm

**26 Urgent items – discretion of the Chair**
26.01 It was reported that there was a crack in the concrete by penwig railings (by the public conveniences) – Councillor Potter to send a photo to Clerk to forward to CCC.
26.02 The email received by Rees-Tom was discussed, it was agreed that it was not appropriate to support his request as outlined in the email
26.03 Concerns were raised regarding the weeds around the town, Councillor Potter would take photographs of the problematic areas in question. It was suggested that members and the local community could weed the relevant areas as due to CCC financial constraints this issue would not be addressed by them. Councillor Potter would arrange a group and the Clerk would contact Keep Wales Tidy for advice. A message would also be placed on the NQ Info page.
26.04 Councillor A Jones would seek the price of chalk for the dog signs.
26.05 Members were concerned that the watersports centre public conveniences were closed over the Bank Holiday, however, the Watersports Centre Manager had opened them and Councillor J Davies had cleaned them at the end of the day. Councillor J Davies suggested that the centre run the public conveniences as requested previously. The view of the Centre Manager would be sought on this prior to contact with CCC.
26.06 Councillor J Davies had a meeting with CCC regarding the Toll boards.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR TREF CEI NEWYDD** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun 26 Mehefin 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd D Potter (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, A Jones, M Rees, B Stones ac H Williams.

(7.00pm- 8.35pm)

**27 Ymddiheuriadau**
Dim.

**28 Materion Personol**
Dim.

**29 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
36.08 Datgelodd y Cynghorwyr G Hopley a P Hopley fuddiant personol.
36.05 Y Cynghorwyr J Davies, J Evans, S Hartley, M Rees, B Stones ac H Williams.

**30 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai 2017**
30.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mai 2017 yn rhai cywir.

**31 Materion yn codi**
31/6.02/98.05 Dywedodd y Cynghorydd J Davies ei bod yn paentio'r arwydd yn ddu a gwyn.
31.02 Câi'r arwyddion eu paentio yn ddu a gwyn.
31.03 Symudwyd y biniau y tu hwnt i gyrraedd y llanw.
31.04 Byddai'r Cadeirydd yn mynd ati i glirio'r Parc Sgrialu.
31.05 Roedd Amgueddfa Ceredigion (Cyngor Sir) yn ymdrin â'r tollfyrddau.
31.06 Cyfeiriodd y Cynghorydd J Evans at yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd G Hopley yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â bod yn gyfrifol am wella'r Ffordd Newydd. Soniodd mai ef a osododd y sylfeini ar gyfer y prosiect, ac mai ef a ofynnodd am ei gynnwys yn y rhaglen gwaith cyfalaf. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd G Hopley nad oedd hi'n gwybod hynny, a'i bod wedi cael cymorth gan Arweinydd y Cyngor ar y pryd, y Cynghorydd Dai Lloyd Evans, i symud y cynllun yn ei flaen, yn ogystal â cham dau'r prosiect arall ger Maesypwll.

**32 Adroddiad y Cynghorydd Sir**

1. Cyfarfu â Barbara Kaminska, Swyddog Cyfiawnder Adferol Cyn y Llys, i drafod cael cymorth gyda chwynnu. Gellid cynnig deunaw awr o waith. Mynegwyd pryder am fod hylif lladd chwyn ar y planhigion, ac felly byddai'n cysylltu â'r Swyddog i drafod y mater. Os na fyddai modd i'r grŵp wneud y gwaith chwynnu, gofynnid iddynt fynd i'r afael â man arall, fel y tu allan i orsaf y Bad Achub neu Goed Maesypwll.
2. Colli Bad Achub Cei Newydd yn 2020
3. Cyfarfu â Cliff Bates i drafod y creigiau uwchlaw Traeth y Dolau, a byddai arwyddion yn cael eu gosod i rybuddio pobl. Tir mewn perchnogaeth breifat oedd hwn, ac felly byddai Rhodri Llwyd o'r Cyngor Sir yn rhoi cyngor i'r perchennog ar y mater.
4. Roedd Peter o'r *Watchhouse* wedi torri'r mieri ar ei dir hyd at Draeth y Dolau.

5. Cyfarfu â Peter Austin i drafod cyfleoedd posib i gael cyllid ar gyfer y Felin Bupur, ac roedd croeso i Aelodau eraill fod yn bresennol.
6. Byddai'n cwrdd â Paul Arnold i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer prosiectau oedd ar y gorwel, a'r angen am ganiatâd cynllunio ac yn y blaen. Darllenwyd llythyr er gwybodaeth.
7. Derbyniwyd llythyr oddi wrth denantiaid y cytiau ar y traeth, yn mynegi pryder am y modd yr oedd y Cyngor Sir yn ymdrin â'r mater. Anfonid copi o'r llythyr a dderbyniodd y tenantiaid at y Cynghorydd Potter i'w ddarllen.
8. Aethpwyd â'r biniau o faes parcio'r Paragon gan fod perchnogion tai haf wedi bod yn eu camddefnyddio.
9. Talwyd am y goeden Nadolig gyda rhodd gan aelod o'r gymuned, a phrynid goleuadau gan fusnesau lleol – câi hynny ei drafod eto fel eitem ar yr agenda.
10. Roedd Ian Richardson wedi cysylltu ag ef ynglŷn â'r trydan ar gyfer yr Ŵyl Gerdd. Gofynnwyd iddo gysylltu â'r Clerc fel y gallai hithau gynnwys y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf.
11. Roedd angen ystyried y gorchmynion traffig mewn mannau amrywiol, gan gynnwys y ffordd tua Phenrhiwllan.
12. Trafodwyd safbwyntiau ynglŷn ag arwyddion Croeso i Gei Newydd – penderfynwyd fod angen arwyddion, ond nad oedd angen sôn am y dolffiniaid.
13. Derbyniwyd cwynion am y sachau ailgylchu newydd – byddai'n anfon e-bost i'r Cyngor Sir.

**33 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £29,798.87 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
33.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
33.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc (mis Mehefin) £98.32
33.03 Ysgol Cei Newydd £1,043.28
33.04 Dai (Paentio Rheiliau) £840.00

Balans Terfynol £27,547.27 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £26,034.61

CYMERADWYWYD yr Adolygiad o Gyllideb Mis Mai fel y'i cyflwynwyd.

**34 Ceisiadau Cynllunio**
34.01 Cais A170534 – 32 Cwm Halen – NODWYD.

**35 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**36 Gohebiaeth**
Ystyriwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
38.01 Penodi llywodraethwr Ysgol Cei Newydd – ar ôl pleidlais gudd, PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Gill Hopley yn llywodraethwr.

36.02 Cadwyn y Maer – Penderfynwyd pe byddai unrhyw Faer am roi ei enw neu'i henw ar y gadwyn, yna byddai'n rhaid i'r Cynghorydd dan sylw dalu am yr engrafiad.
36.03 Clirio, chwynnu ac yn y blaen – trafodwyd chwyn eisoes, ac roedd angen chwynnu yng nghyffiniau Cwmhalen hefyd.
36.04 Paentio'r "pwmp" a'r pyst o amgylch y Ganolfan Groeso – cytunodd yr Aelodau fod y Cynghorydd Potter yn paentio'r "pwmp" gan fod ganddo'r yswiriant gofynnol, ac y byddai'n cynnal asesiad risg. Cysylltwyd ag Un Llais Gymru i gael cadarnhad. Fodd bynnag, byddai'n rhaid cael caniatâd y Cyngor Sir i baentio'r pyst o amgylch y Ganolfan Groeso. Roedd angen trwsio un o'r pyst ar Sgwâr Ucheldir hefyd.
36.05 Regata Bae Ceredigion – cytunodd yr Aelodau y gallai Regata Bae Ceredigion godi'r baneri. Ymddiheurodd y Clerc am iddi feddwl mai'r Clwb Hwylio oedd wedi gwneud y cais.
36.06 Cais am gymorth ar gyfer coeden Nadolig ym Mharc Penwig a defnyddio cyflenwad trydan – penderfynodd yr Aelodau gefnogi'r cais, ond byddai'n rhaid cael caniatâd y Cyngor Sir fel perchennog y tir.
36.07 Maesypwll a llwybrau – gofynnid am dri amcangyfrif o bris ar gyfer Maesypwll, roedd angen trwsio mainc hefyd a gosod arwyddion ynglŷn â baw cŵn. Awgrymwyd hefyd y gellid gosod bocsys yn dal sachau baw cŵn, fel yr oedd y Cynghorydd Hartley wedi'u gweld yn Aberdyfi. Soniwyd y bu Cyngor Cymuned Aberporth yn gosod bocsys o'r fath, ond eu bod bellach wedi rhoi'r gorau iddi. Cysylltid â'r Clerc am fwy o fanylion.
36.08 Cae Chwarae – derbyniwyd e-bost ynglŷn â chyfarfod Clwb Pêl-droed Cei Newydd – gofynnodd y Cynghorydd J Evans fod y Cynghorwyr G a P Hopley yn gadael yr ystafell wrth i'r Aelodau drafod yr eitem hon, a chytunodd y ddau Aelod cyn gadael yr ystafell. Roedd y Cynghorydd J Evans wedi anfon e-bost at bob Cynghorydd ar ôl cyfarfod blynyddol y Clwb Pêl-droed, i fynegi ei bryder am fod y Cadeirydd, Shan Gwyn, wedi dweud nad oedd Cyngor y Dref wedi cynorthwyo'r clwb, ac wedi rhoi arian i Ysgol Bro Siôn Cwilt y tu allan i'r Ward. Adroddodd y Cynghorydd J Evans gynnwys yr e-bost, ond dywedodd y Clerc mai'r unig bryder i'r Cyngor oedd bod y Cadeirydd wedi dweud nad oedd Cyngor y Dref wedi rhoi cymorth. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Chadeirydd Clwb Pêl-droed Cei Newydd i gadarnhau'r sefyllfa. Yna gofynnwyd i'r Cynghorydd J Evans adael yr ystafell wrth i weddill yr Aelodau drafod y mater. Cydsyniodd y Cynghorydd Evans i hynny a gadawodd yr ystafell. Roedd yr Aelodau o'r un farn â'r Clerc mai'r unig bryder i'r Cyngor oedd yr awgrym nad oedd Cyngor y Dref wedi cynorthwyo'r Clwb Pêl-droed, er ei fod wedi rhoi £6,000 pan ddechreuwyd adnewyddu'r cae chwarae. Soniwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau eraill am gymorth ariannol, nac unrhyw gais i Gyngor y Dref dalu am archwiliadau o'r cae chwarae. O ran y materion eraill a godwyd yn yr e-bost, cytunwyd y dylai'r Cynghorydd J Evans drafod y rheiny'n bersonol ag aelodau'r Clwb Pêl-droed. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Chadeirydd Clwb Pêl-droed Cei Newydd ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

**37 Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 31 Gorffennaf 2017 am 7.00pm.

**38 Materion Brys i'w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**

38.01 Estynnwyd llongyfarchiadau i Ben Lake am ennill yr Etholiad Cyffredinol.

Minutes of a **Meeting** of the **NEW QUAY TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday 26 June 2017**

PRESENT: Councillor D Potter (Chairman), Councillor
J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, A Jones, M Rees, B Stones and H Williams

(7.00pm- 8.35pm)

**27 Apologies**
None.

**28 Personal Matters**
None

**29 Declaration of Personal/Prejudicial Interest**
36.08 Councillor G Hopley and P Hopley declared a personal interest
36.05 Councillor J Davies, J Evans, S Hartley, M Rees, B Stones and H Williams

**30 Minutes of the Meeting held on 31 May 2017**
30.01 The Minutes of the meeting of the 31 May 2017 were confirmed as a true record.

**31 Matters arising**
31/6.02/98.05 Councillor J Davies reported that she was painting the sign black &white
31.02Signs were being painted white & black
31.03 Bins relocated above the high water mark
31.04 The Chairman could proceed with cleaning up of the skateboard park
31.05CCC museum were addressing the toll boards
31.06 Councillor J Evans referred to the statement made by Councillor G Hopley at the last meeting was responsible for the New Road improvements. He reported that he had done the ground work for this project and had requested it to be in the capital works programme. In response, Councillor G Hopley stated that she wasn't aware of this and that she had the assistance of the Leader at the time, Councillor Dai Lloyd Evans to address the programme and also phase 2 of the project by Maesypwll.

**32 County Councillor's Report**

1. Met with Barbara Kaminska. Pre Court and Restorative Justice Officer regarding assistance in weeding, they had 18 hours they could offer. Concerns were raised that that there was weed killer on the weeds and therefore, he would contact the Officer to discuss the issue. If they were unable to weed, they would requested to address another area such as by the lifeboat station or maesypwll.
2. Loss Of New Quay Lifeboat in 2020
3. Met with Cliff Bates regarding the rocks above the Dolau Beach, warning signage would be erected. The land is privately owned, therefore Rhodri Llwyd from CCC would be advising the owner on the matter.
4. Peter Watch house had cut the brambles on his land down to Dolau Beach
5. Meeting with Peter Austin regarding funding avenues for the Pepper Pot, other

Members were welcome to attend

6. Would be meeting with Paul Arnold regarding the way forward in approaching projects and the need for planning applications etc, a letter was read out as reference
7. A letter had been received by the tenants of the sheds on the beach, concerns were raised with the approach of CCC on this matter, a copy of the letter received by the tenants would be sent to Councillor Potter for perusal
8. Bins had been taken away from Paragon car park as they had been abused by holiday home owners
9. The Christmas tree had been paid for as a donation from a member of the community, lights would be purchased from the local businesses- would be discussed further as it was an item on the agenda
10. Had been approached by Ian Richardson regarding the electric for the Music Festival, had informed him to contact the Clerk accordingly to place as an item on the next agenda
11. The need to consider the traffic orders of various locations to include the road towards Penrhiwllan
12. Views regarding signage for Welcome to New Quay was considered – it was agreed signage was required but no need to mention the dolphins
13. Complaints had been received regarding the new clear recycling bags – he would send an email to CCC

**33 Finance**

It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-
Finance
Opening Balance £29,798.87 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
33.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
33.02 Clerk back pay (June) £98.32
33.03 Ysgol Cei Newydd £1,043.28
33.04 Dai (Painting of railings) £840.00

Closing Balance £27,547.27 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £26,034.61

The Review of the Budget for May was AGREED.

**34 Planning Applications**

34.01 Application A170534 – 32 Cwm Halen- NOTED

**35**
**Planning decisions**

None.

**36 Correspondence**

Consideration was given to the following:-
38.01 Appoint a school governor for New Quay School - Following a secret ballot, it was

RESOLVED that Councillor Gill Hopley be appointed as the school governor
36.02 Mayrol Chain-It was agreed that if you wished for your name to be placed on the chain, the Councillor in question would pay for the engraving
36.03 Clean up- weeds etc.- weeds discussed previously, there was also a need to address the weeds around Cwmhalen
36.04 Painting of “the pump” and the posts around the TIC- Members agreed for Councillor Potter to paint the “the pump” as he had the relevant public liability insurance and would conduct a risk assessment. Advice had been sought from OVW who had stated this. However, permission from CCC was required to paint the posts around the TIC
There was also a need to repair a bollard at Uplands Square
36.05 Cardigan Bay Regatta Banners-Members agreed to for Cardigan Bay Regatta to erect the banners- the Clerk apologised as she had thought this request was from the Yacht Club
36.06 Request for support for a Christmas Tree in Penwig Park and the use of electric - Members agreed to support the request, however, they required permission from CCC as the park was in their ownership
36.07 Maesypwll and footpaths - 3 Tender quotes would be requested for Maesypwll, also a bench required repair and there was a need for dog fouling signage. It was suggested that idog bag dispensers could be erected as Councillor Hartley as seen in Aberdyfi. It was reported that they had been available in Aberporth CC, but they had now ceased. The Clerk would be contacted for clarification.
36.08 Playground – email received regarding the meeting of NQFC- Councillor J Evans requested that Councillor G and P Hopley vacated the room during this item, both Members agreed and vacated accordingly. Councillor J Evans had sent an email to all Councillors following the NQFC AGM expressing his concern regarding the chairman, Shan Gwynn reporting that NQTC had not been supportive to the Club and had donated to Ysgol Bro Sion Cwilt outside the Ward. Councillor J Evans reiterated the content of the email, however, the Clerk stated that the only issue of concern for the Council was the issue that the Chairman had stated that NQTC had not provided support. The Clerk would contact the Chairman of NQFC for clarity. Councillor J Evans was then requested to vacated the room for the remaining members to discuss the issue. Councillor Evans agreed to the request and vacated the room. Members were of the opinion as the Clerk had stated that the only issue of concern was the issue that NQTC had not been supportive to NQFC even though they had donated £6000 at the beginning of the refurbishment of the playground. It was noted that no further requests for financial assistance had been requested or a request for NQTC to pay for the playground inspection. Other issues raised in the email should be addressed personally by Councillor J Evans with the Members of NQFC. The Clerk would contact the Chairman of NQFC and report back to Council accordingly.

**37 Arrangements for the next meeting**

It was agreed that the next meeting would be held on Monday, 31 July 2017 at 7.00pm

**38 Urgent items – discretion of the Chair**

38.01 Congratulations were conveyed to Ben Lake on winning the General Election

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR TREF CEI NEWYDD** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun 31 Gorffennaf 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd D Potter (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, S Hartley, M Rees ac H Williams.

(7.00pm- 8.20pm)

**39 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr G Hopley, P Hopley ac B Stones am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**40 Materion Personol**
Dim.

**41 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Cafodd y Cynghorwyr S Hartley ac H Williams ollyngiad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i siarad a phleidleisio o ran eitem 48.03.

Cafodd y Cynghorydd D Potter ollyngiad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i siarad yn unig ynglŷn ag eitem 48.03.

**42 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2017**
42.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2017 yn rhai cywir.

**43 Materion yn codi**
43.01/31/6.02/98.05 Dywedodd y Cynghorydd J Davies nad oedd hi wedi gorffen yr arwydd oherwydd y tywydd a phrysurdeb yr haf.
43.02/31.04 Gallai'r Cadeirydd fynd ati i glirio'r parc sgrialu.
43.03/32.01 Roedd y rhan helaeth o'r gwaith chwynnu wedi'i wneud, ond byddai'r Cynghorydd H Williams yn mynd i'r afael â'r chwyn oedd ar ôl ar y llithrfa i'r traeth mawr.
43.04/32.03 Gosodwyd arwyddion. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai swyddogion y Cyngor Sir ddod i fwrw golwg ar yr hollt bob mis. Soniwyd fod aelodau o'r cyhoedd yn sefyll ac yn eistedd o dan y creigiau gan anwybyddu'r arwydd.
43.05/32.07 Anfonid llythyr i'r Adain Ystadau yn gofyn am esboniad o'r weithdrefn ar gyfer dyrannu'r cytiau, gan ofyn a roddid blaenoriaeth i breswylwyr llawn amser. Os na roddid blaenoriaeth, yna dylid gwneud. Roedd yr Aelodau hefyd yn siomedig fod llawer o bobl wedi ildio'u cytiau i wneud lle ar gyfer y ganolfan chwaraeon dŵr, ac nad oeddent yn cael eu troi allan.
43.06/32.10 Nid oedd Gŵyl Gerdd Cei Newydd wedi gwneud cais i ddefnyddio'r trydan. Byddai'r Cynghorydd Potter yn trafod â'r trefnwyr, ac anfonid e-bost yn cydsynio i'r ŵyl ddefnyddio'r cyflenwad trydan, ar yr amod y dychwelid y wifren o dan y ddaear, gan na wnaethpwyd hynny'r llynedd.
43.06/32.08 Ni fyddai'r biniau'n dychwelyd i faes parcio'r Paragon.
43.07 Roedd y slabiau concrit ar y traeth wedi torri bellach – cysylltid â'r Cyngor Sir eto yn gofyn am gael gwared arnynt.
43.08 Paentiwyd y pwmp yn goch a du.
43.09/36.02 Anfonid cadwyn y Maer at y gemydd ym mis Medi.

43.10/36.08 Ni chafwyd ymateb oddi wrth Glwb Pêl-droed Cei Newydd.

**44 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
44.01 Roedd y Cyngor Sir wedi gosod yr arwyddion o flaen y graig ar Draeth y Dolau.
44.02 Cyfarfu â Jon Hadlow i drafod clirio'r llain wrth ymyl y Ganolfan Groeso.
44.03 Roedd Lyndon Griffiths wedi ffonio; byddai'r ffordd ger y feddygfa'n agor, byddai'n cysylltu â'r swyddog eto yn gofyn am dwmpath cyflymder gan fod yr Aelodau'n pryderu am oryrru, yn enwedig felly gan fod cae chwarae gerllaw.
44.04 Ni chafwyd ymateb oddi wrth berchnogion y lloches fysus ar Stryd y Parc – mynegodd yr Aelodau bryderon mawr am fod gyrwyr yn parcio'u ceir ar hyd ymyl y ffens gan beri rhwystr, yn enwedig felly i'r injan dân; yn ddiweddar bu'r injan dân yn aros yn ei hunfan am chwarter awr ar ei ffordd i ddiffodd tân. Soniwyd fod nifer o drigolion Heol y Bryn yn parcio ar ymyl y ffordd ac yn rhwystro bysus rhag mynd heibio. Byddai'n trafod y mater â'r trigolion ac yn hysbysu'r Cyngor Sir ynglŷn â phobl yn parcio'u ceir ar Stryd y Parc.
44.05 Bu'n bresennol mewn cyfarfod grŵp gweithredu ar y bad achub.
44.06 Paentiwyd y pwmp yn goch a du, fel y soniwyd eisoes.

**45 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £27,547.27 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
45.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
45.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc £196.64 (mis Gorffennaf a mis Awst)
45.03 Paul Hughes £415.00
45.04 Llogi'r Neuadd £45.00

Balans Terfynol £26,625.63 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £25,112.97

CYMERADWYWYD yr Adolygiad o Gyllidebau mis Gorffennaf a mis Awst fel y'u cyflwynwyd.

**46 Ceisiadau Cynllunio**
46.01 Glyn Cottage – roedd yr Aelodau'n gwrthwynebu'r cais gan na chefnogwyd ceisiadau tebyg yn yr ardal. Roedd y cais hefyd yn groes i bolisi LU21.

**47 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**48 Gohebiaeth**
Ystyriwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
48.01 Maesypwll a llwybrau – derbyniwyd e-bost oddi wrth Paul Evans ac fe'i darllenwyd yn y cyfarfod. Roedd yn sôn am y tegeirianau ac adnewyddu'r cytundeb rhwng Cyngor Tref Cei Newydd a Chyngor Sir Ceredigion. Penderfynwyd cysylltu â'r contractwr ynglŷn â'r gwaith, a gofyn am gopi o'r cytundeb cyn rhoi cymeradwyaeth. Soniodd y cynghorydd Potter hefyd na châi'r clawdd gyferbyn â Pharc Penwig ei dorri tan fis Medi. Dywedodd yr

Aelodau fod y tymor nythu wedi dod i ben ac y dylai’r Cyngor dorri’r clawdd cyn gynted â phosib.

48.02 Llythyr oddi wrth berchennog Hen Dŷ’r Banc ynglŷn â Stryd y Parc – soniwyd am hyn yn Adroddiad y Cynghorydd Sir.

48.03 Cais am gymorth ariannol oddi wrth Ymgyrch Bad Achub Ceredigion – penderfynwyd rhoi £250.00

48.04 E-bost oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â Llwybr Arfordir Cymru – penderfynwyd cefnogi’r cais yn unol â chynnwys yr e-bost.

**49 Trefniadau’r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 25 Medi 2017 am 7.00pm.

Minutes of a **Meeting** of the **NEW QUAY TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday 31 July 2017**

PRESENT: Councillor D Potter (Chairman), Councillor
J Davies, J Evans, S Hartley, M Rees and H Williams

(7.00pm- 8.20pm)

**39 Apologies**
Councillor G Hopley, P Hopley and B Stones apologised for their inability to attend the meeting.

**40 Personal Matters**
None

**41 Declaration of Personal/Prejudicial Interest**
Councillor S Hartley and H Williams had received a dispensation from the Ethics and Standards Committee to speak and vote on 48.03

Councillor D Potter had received a dispensation from the Ethics and Standards Committee to speak only on 48.03.

**42 Minutes of the Meeting held on 26 June 2017**
42.01 The Minutes of the meeting of the 26 June 2017 were confirmed as a true record.

**43 Matters arising**
43.01/31/6.02/98.05 Councillor J Davies reported that she had not finished the sign due to the weather and the busy summer period
43.02/31.04 The Chairman could proceed with cleaning up of the skateboard park
43.03/32.01 The majority of the weeds had been taken away, however, Councillor H Williams would address the weeds that remained on the slip down to the main beach
43.04/32.03 signs had been erected, Members were of the opinion that the crack should be monitored monthly by CCC officials. It was noted that members of the public stood/sat under the rocks ignorant to the sign
43.05/32.07 A letter would be sent to the Estates Department requesting clarification regarding the procedure for the allocation of the sheds and if priority was given to full time residents, if not, this should be the case. Members were also disappointed that many had given up their sheds to accommodate the Watersports centre and were not being evicted.
43.06/32.10 A request to use electricity had not been made by New Quay Music Festival, Councillor Potter would discuss the matter with the organisers and an email would be sent agreeing to the use on the condition that the electricity cable was returned underground, this was not the case following last years' festival.
43.06/32.08 The bins would not be returning to Paragon car park.
43.07 The concrete slabs on the beach were now broken- contact CCC again for their removal
43.08 The pumb had been painted red and black
43.09/36.02 The Mayrol chain would be sent to the jewellers in September
43.10/36.08 A reply had not been received from New Quay Football Club

**44 County Councillor's Report**
44.01 Ceredigion Council had erected the signs in front of the cliff on dolau beach
44.02 Met with Jon Hadlow regarding clearing the side of the Tourist Information Centre
44.03 Lyndon Griffiths had telephoned; the road by the surgery would be opened, he would contact the officer again requesting a speed ramp as Members had concerns regarding speeding on the road, especially with the location of the playground
44.04 No reply had been received from the owners of the bus shelter in park street- major concerns were raised by members that drivers were parking their cars outside the cordoned off area causing obstruction; especially to the fire engine; which had recently occurred with the engine was as a standstill for 15 minutes on a way to a fire. It was reported that a number of homeowners were also parking and obstructing the bus passing on hill street. He would discuss the matter with the homeowners and report the parking by the bus shelter to the County Council.
44.05 Had attended the action group of the lifeboat
44.06 Pumps had been painted red and black as reported previously

**45 Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-
Finance
Opening Balance £27,547.27 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
45.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
45.02 Clerk back pay £196.64 (July & August)
45.03 Paul Hughes £415.00
45.04 Hire of Hall £45.00

Closing Balance £26, 625.63 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £25,112.97

The Review of the Budget for July and August was AGREED.

**46 Planning Applications**
46.01 Glyn Cottage – Members disagreed with the application as similar applications in the area had not been supported. The application was also contrary to policy LU21

**47**
**Planning decisions**
None.

**48 Correspondence**
Consideration was given to the following:-
48.01 Maesypwll and footpaths- an email from Paul Evans was read out regarding the orchids and the renewal of the agreement between NQTC and CCC. It was agreed that the contractor would be contacted regarding the cutting and a copy of the agreement would be requested prior to approval. Councillor Potter also reported that the hedge opposite Penwig Park would not be cut until September. Members reported that the nesting period had

ended and urged that the Council cut the hedge as soon as possible.

48.02 Letter from proprietor of Old Bank House regarding Park Street – had been addressed by the County Councillor under his report.

48.03 Financial request from the Ceredigion Lifeboat Campaign – It was agreed to contribute £250.00

48.04 Email from CCW regarding Wales Coastal Path- It was agreed to support the request as outlined in the email.

**49 Arrangements for the next meeting**
It was agreed that the next meeting would be held on Monday, 25 September 2017 at 7.00pm

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 26 Medi 2016**

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 26 September 2016**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd B Stones (Cadeirydd), y Cynghorwyr S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, M Rees

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, M Rees

(7.00pm- 8.20pm)

Croesawodd y Cadeirydd Mr Osian Jones, Swyddog Mynediad Cymunedol, a ddaeth i'r cyfarfod i hysbysu'r aelodau o'r cynllun cyfredol i ffurfio grwpiau lleol i gynorthwyo â llwybrau yn y Ward. Dywedwyd wrtho fod Cyngor y Dref yn talu am docio'r llwybrau, a byddai Mr Jones yn holi ei reolwr a oedd cyllid ar gael i gyfrannu at hynny.

The Chair welcomed to the meeting, Mr Osian Jones, Community Access Officer to inform members on the current scheme for local groups to assist with the paths in the Ward. He was informed that the Town Council pay for the trashing of the paths and he would discuss with his Manager if there was available funding to assist the Council with their payment.

38 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd D Potter am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

38 **Apologies**
Councillor D Potter apologised for his inability to attend the meeting.

39 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

39 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
None.

40 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016**
40.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016 yn rhai cywir.

40 **Minutes of the Meeting held on 25 July 2016**
40.01 The Minutes of the meeting of the 25 July 2016 were confirmed as a true record.

**Materion yn codi**
40.01/31.01 Derbyniwyd e-bost

**Matters arising**
40.01/31.01 An email had been

| | | | |
|---|---|---|---|
| | oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor y Clwb Pêl-droed yn dweud y trefnid archwiliad yn unol â’r cais.<br>40.02/36.01 Soniwyd fod rhywun wedi mynd â chlawr y goeden Nadolig unwaith eto. Byddai’r Cynghorydd J Evans yn cysylltu â swyddogion Cyngor Sir Ceredigion i drafod llenwi’r twll â defnydd addas.<br>40.03/37.01 Torrwyd y coed ar ôl i’r Clerc anfon llythyr. | | received from the Chairman of the Football Club Committee stating that an inspection would be instructed accordingly.<br>40.02/36.01 It was reported that the cover of the Christmas tree had again been removed. Councillor J Evans to discuss with Officers from Ceredigion County Council a suitable material to fill the hole.<br>40.03/37.01 The trees had been felled following the letter sent by the Clerk. |
| 41 | **Adroddiad y Cynghorydd Sir**<br>41.01 Aeth i gyfarfod y Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd ar ran Cyngor y Dref.<br>41.02 Aeth i’r ymchwiliad ynglŷn â Compton House ar ran Cyngor y Dref.<br>41.03 Cynhaliwyd gweithdy blynyddol i fonitro’r Cynllun Datblygu Lleol, ac roedd y targedau wedi’u cyflawni mewn nifer o aneddiadau.<br>41.04 Cynhelid cyfarfod o’r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol ddydd Mercher lle byddai trafodaeth am yr harbwrfeistr/cyllid. | 41 | **County Councillor’s Report**<br>41.01 Attended a FLAG meeting on behalf of NQTC<br>41.02 Attended the inquiry on Compton House on behalf of NQTC<br>41.03 An annual LDP monitor workshop was held and that there were several settlements on target<br>41.04 There would be a Corporate Resources Committee on Wednesday there the harbour master/budget would be discussed. |
| 42 | **Cyllid**<br>PENDERFYNWYD cymeradwyo’r taliadau canlynol i mewn ac allan o’r cyfrifon:-<br>Arian a dalwyd i mewn yn sgil ad-daliad TAW a rhoddion i’r Amgueddfa £895.16 a £35.00<br>Balans Cychwynnol £27,465.12 (£1012.66 wedi’i roi o’r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).<br>42.01 Cyflog a Threuliau’r Clerc £265.00<br>42.02 Cyflog yn ddyledus i’r Clerc £72.56 (mis Medi) | 42 | **Finance**<br>It was AGREED to approve the following for payments and credit to the accounts:-<br>Monies paid in from VAT refund and Museum donations £895.16 & £35.00<br>Opening Balance £27,465.12 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).<br>42.01 Clerk Salary & Expenses £265.00<br>42.02 Clerk back pay £72.56 (September)<br>42.03 NQ Memorial Hall £45.00<br>42.04 Paul Hughes £415.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 42.03 Neuadd Goffa Cei Newydd £45.00<br>42.04 Paul Hughes £415.00<br>42.05 Cyfieithu £34.86<br><br>Balans Terfynol £26,633.40 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).<br><br>Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £25,120.24<br><br>Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Medi fel y'i cyflwynwyd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cyfrifon 2015/16 ynghyd ag argymhellion yr archwilydd allanol. | | 42.05 Translation £34.86<br><br>Closing Balance £26,633.40 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).<br><br>Closing balance for Town Council account £25,120.24<br><br>The Review of the Budget for September was agreed as presented.<br><br>It was AGREED to accept and approve the accounts for 2015/16 and the recommendations of the external auditor. |
| 43 | **Ceisiadau Cynllunio**<br>43.01 A160823 – Milford House, Nant Ifan - NODWYD<br><br>43.02 A160849 – Afon Berth, 44 Cwmhalen - NODWYD | 43 | **Planning Applications.**<br>43.01 A160823 – Milford House, George St - NOTED<br><br>43.02 A160849 Afon Berth, 44 Cwmhalen - NOTED |
| 44 | **Penderfyniadau Cynllunio**<br>Dim. | 44 | **Planning decisions**<br>None. |
| 45 | **Gohebiaeth**<br>45.01 PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig fel y'u cyflwynwyd.<br><br>45.02 PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Gofrestr Risg ar gyfer 2016/7 fel y'i cyflwynwyd.<br><br>45.03 Sbwriel – ar ôl trafodaeth helaeth ynglŷn â thrafferthion â sbwriel dros yr haf, PENDERFYNWYD gwahodd Gerwyn Jones i'r cyfarfod nesaf fel y gellid gweithio mewn partneriaeth i | 45 | **Correspondence**<br>45.01 It was AGREED adopt the revised Financial Regulations as presented.<br><br>45.02 It was AGREED to adopt the Risk Register for 2016/7 as presented.<br><br>45.03 Refuse – following a lengthy discussion on the problems with refuse over the summer period, it was AGREED to invite Gerwyn Jones to the next meeting in order to work in partnership to try and promote the Caru Ceredigion in New Quay namely as Caru Cei. It |

geisio hyrwyddo Caru Ceredigion yng Nghei Newydd, ond wedi ei addasu i Caru Cei. Penderfynwyd hefyd y dylid trafod sbwriel ar y Pier a'r angen am arwyddion i atal tipio anghyfreithlon.

45.04 Y Llyfrgell – Llofnodwyd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

45.05 Coed tal yn y Ward – Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i grybwyll torri rhai o'r coed.

45.06 Byddai'r angen i fynd i'r afael â chwyn ac ati yn y Ward hefyd yn cael ei drafod â Gerwyn Jones.

was also agreed that refuse on the Pier and the need for signage to stop fly tipping also would be discussed.

45.04 Library – The SLA was signed accordingly

45.05 The height of trees in the Ward- It was agreed that CCC would be contacted to consider felling a number of trees.

45.06 The need to address the issue of weeds etc. in the Ward, this would also be discussed with Gerwyn Jones.

46 **Materion Brys i'w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**

46.01 Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir fel y gellid gofyn i *Quay West* dorri'r coed mêl a'r drain ger y palmant ar y Ffordd Newydd, gan fod cynifer o blant yn cerdded i'r ysgol ac yn ôl.

46 **Urgent Matters Brought Forward at the Discretion of the Chair**

46.01 It was agreed to contact CCC to request Quay West to cut the buddleia/brambles by the New Road pavement due to the number of children walking to/from school.

47 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 31 Hydref 2016.

47 **Arrangement for next meeting**

The next meeting would be held on Monday, 31 October 2016.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 26 September 2016**

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor
S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, M Rees

(7.00pm- 8.20pm)

The Chair welcomed to the meeting, Mr Osian Jones, Community Access Officer to inform members on the current scheme for local groups to assist with the paths in the Ward. He was informed that the Town Council pay for the trashing of the paths and he would discuss with his Manager if there was available funding to assist the Council with their payment.

38 **Apologies**
Councillor D Potter apologised for his inability to attend the meeting.

39 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
None.

40 **Minutes of the Meeting held on 25 July 2016**
40.01 The Minutes of the meeting of the 25 July 2016 were confirmed as a true record.

**Matters arising**
40.01/31.01 An email had been received from the Chairman of the Football Club Committee stating that an inspection would be instructed accordingly.
40.02/36.01 It was reported that the cover of the Christmas tree had again been removed. Councillor J Evans to discuss with Officers from Ceredigion County Council a suitable material to fill the hole.
40.03/37.01 The trees had been felled following the letter sent by the Clerk.

41 **County Councillor's Report**
41.01 Attended a FLAG meeting on behalf of NQTC
41.02 Attended the inquiry on Compton House on behalf of NQTC
41.03 An annual LDP monitor workshop was held and that there were several settlements on target
41.04 There would be a Corporate Resources Committee on Wednesday there the harbour master/budget would be discussed

42 **Finance**

It was AGREED to approve the following for payments and credit to the accounts:-

Monies paid in from VAT refund and Museum donations £895.16 & £35.00

Opening Balance £27,465.12 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

42.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
42.02 Clerk back pay £72.56 (September)
42.03 NQ Memorial Hall £45.00
42.04 Paul Hughes £415.00
42.05 Translation £34.86

Closing Balance £26,633.40 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £25,120.24

The Review of the Budget for September was agreed as presented.

It was AGREED to accept and approve the accounts for 2015/16 and the recommendations of the external auditor.

43 **Planning Applications.**

43.01 A160823 – Milford House, George St- NOTED

43.02 A160849 Afon Berth, 44 Cwmhalen - NOTED

44 **Planning decisions**

None.

45 **Correspondence**

45.01 It was AGREED adopt the revised Financial Regulations as presented.

45.02 It was AGREED to adopt the Risk Register for 2016/7 as presented.

45.03 Refuse – following a lengthy discussion on the problems with refuse over the summer period, it was AGREED to invite Gerwyn Jones to the next meeting in order to work in partnership to try and promote the Caru Ceredigion in New Quay namely as Caru Cei. It was also agreed that refuse on the Pier and the need for signage to stop fly tipping also would be discussed.

45.04 Library – The SLA was signed accordingly

45.05 The height of trees in the Ward- It was agreed that CCC would be contacted to consider felling a number of trees.

45.06 The need to address the issue of weeds etc. in the Ward, this would

also be discussed tithe Gerwyn Jones.

46 **Urgent Matters Brought Forward at the Discretion of the Chair**
46.01 It was agreed to contact CCC to request Quay West to cut the buddleia/brambles by the New Road pavement due to the number of children walking to/from school

47 **Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held on Monday, 31 October 2016.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 31 Hydref 2016**

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 31 October 2016**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd B Stones (Cadeirydd), y Cynghorwyr S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, D Potter, M Rees, H Williams

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, D Potter, M Rees, H Williams

(7.00pm- 8.20pm)

**Gweithdrefn**

Gan fod y Clerc, Dana Jones, yn absennol, y Cynghorydd S Davies a fyddai'n cymryd nodiadau yn y cyfarfod. Byddai'r Clerc yn llunio'r cofnodion ar sail y rheiny.

**Procedure**

In the absence of the Clerk, Dana Jones, the notes for the meeting were taken by Councillor S Davies. The minutes would be composed by the Clerk accordingly.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Gerwyn Jones, Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol, a ddaeth i'r cyfarfod i drafod y mater a godwyd yn y cyfarfod blaenorol. Esboniodd i'r Aelodau ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau gyda'r Cyngor, a dywedodd mai delio â gwastraff oedd un o'r swyddogaethau pennaf. Trafodwyd y diffyg casgliadau dros yr haf pan fyddai'r dref yn llenwi â thwristiaid. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Grŵp fod y cyngor wrthi'n adolygu'r trefniadau casglu gwastraff ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, ac y gallai hynny effeithio ar fflyd gerbydau'r Cyngor. Soniodd hefyd mai Ceredigion oedd yr awdurdod lleol gorau yng Nghymru o ran ailgylchu, a bod cynllun peilot ar waith yn Aberteifi ar gyfer gwasanaeth casglu gwydr.

The Chair welcomed to the meeting, Mr Gerwyn Jones, Group Manager Local Environmental Services to the meeting to discuss the issue raised at the last meeting. He outlined to Members his role and responsibilities within the Council and stated that addressing waste was one of his major roles. Issues discussed were the lack of refuse collection over the summer months compared to the number of tourists. In response, the Group Manager reported that the refuse model was currently being reviewed in partnership with Pembrokeshire County Council and could impact the collection fleet of the Council. He also reported that Ceredigion was the best performing authority in Wales for recycling, and new models for glass collection was currently being trailed in Cardigan.

In order to address the overflowing

Er mwyn mynd i'r afael â'r biniau'n gorlenwi penderfynwyd rhoi biniau 240 litr ar olwynion ar y traeth i ddal y swm enfawr o wastraff o fis Mawrth 2017 ymlaen.

Bu trafodaeth hefyd am y cynllun "Caru Cei" oedd â'r nod o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned. Penderfynwyd y gellid ystyried hynny pe byddai cyllid ar gael yn sgil codi mwy o Dreth y Cyngor ar dai haf.

Y materion eraill dan sylw oedd yr angen i fynd i'r afael â chwyn wedi gwywo, yr angen i dorri'r llystyfiant y tu ôl i'r caffi ar y traeth/o dan y Cnwc, a'r angen i roi tyllau'n is i lawr ar y banciau poteli fel y gallai pobl fyrrach eu defnyddio. Trosglwyddid y sylwadau hyn oll i'r gwasanaethau perthnasol.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Mr Jones am ddod i'r cyfarfod.

bins it was agreed that 240 litre wheelie bins would be placed on the beach to accommodate the vast amount of refuse as from March 2017.

The "Caru Cei" initiative was also discussed in order to have a positive effect on the community. It was agreed that this would be considered if monies were available from the extra money charged on holiday homes.

Other issues discussed was the need to address the dying weeds, the need to cut the overgrown area on the rear of the beach café/under the Cnwc and the need for lower slots on the bottle banks for shorter users. These requests would be referred to the relevant service.

The Chairman thanked Mr Jones for attending.

47 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mrs Dana Jones, Clerc y Cyngor, am na fedrai ddod i'r cyfarfod oherwydd salwch.

47 **Apologies**
Mrs Dana Jones, Town Clerk apologised for her inability to attend the meeting due to illness.

48 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

48 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
None.

49 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2016**
49.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2016 yn rhai cywir.

49 **Minutes of the Meeting held on 26 September 2016**
49.01 The Minutes of the meeting of the 26 September 2016 were confirmed as a true record.

**Matters arising**

**Materion yn codi**
40.02/36.01 Roedd y Cynghorydd J Evans wedi trafod y twll gydag Andy Bligh, a châi hyn ei ddatrys cyn gynted â phosib.
41.01 Roedd Jonathan Evans wedi gofyn a fedrai fynd yn lle'r Cynghorydd G Hopley, ond rhywun i gynrychioli Cyngor y Dref oedd eisiau ar y Grŵp. Byddai'r Cynghorydd S Hartley â diddordeb, gan ddibynnu ar bethau eraill.

40.02/36.01 Councillor J Evans had discussed the hole with Andy Bligh, this would be addressed as soon as possible.
41.01 Jonathan Evans had requested if he could attend instead of Councillor G Hopley, however, this position was on behalf of NQTC. Councillor S Hartley would be interested depending on other commitments.

50 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**
50.01 Aeth i weithdy ar ailstrwythuro Gwasanaethau Cwsmeriaid
50.02 Cyfarfod Defnyddwyr yr Harbwr ar yr ugeinfed. Roedd Jonathan Evans wedi gofyn bod yn ddirprwy ar y Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd. Roedd y Cynghorydd G Hopley yn mynd i'r cyfarfodydd ar ran Cyngor y Dref.
50.03 Derbyniodd nifer o lythyrau ynglŷn â chodi 25% ar ben ardrethi ail gartrefi/tai gwag
50.04 Gohiriwyd y gweithdy ar y gyllideb ac fe'i cynhelid ar 8 Tachwedd.
50.05 Roedd angen siec am £25.00 ar gyfer y dorch o babïau. Byddai'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd M Rees, yn bresennol gan y byddai'r Cadeirydd yn absennol.
50.06 Rhoddid enw Cyngor y Dref ar lyfr Ryseitiau Ysgol Cei Newydd.

50 **County Councillor's Report**
50.01 Attended a Customer Service Structure Workshop
50.02 Harbour Users Meeting on the 20th. Jonathan Evans had requested to be my deputy on the FLAG group. I attend on behalf of NQTC.
50.03 Received several letters regarding the 25% on the rates of second/empty homes
50.04 The budget workshop was cancelled and the new date is the 8th November.
50.05 £25.00 cheque required for the Poppy Wreath. The Vice-Chairman, Councillor M Rees would attend as the Chair was away.
50.06 NQTC name would be placed on the NQ School Recipe book.

51 **Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-
Balans Cychwynnol

51 **Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

£26,633.40 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
51.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
51.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc £72.56 (mis Hydref)
51.03 ART Fabrications £58.60

Balans Terfynol £26,237.24 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £24,724.58

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Hydref fel y'i cyflwynwyd.

Opening Balance £26,633.40 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
51.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
51.02 Clerk back pay £72.56 (October)
51.03 ART Fabrications £58.60

Closing Balance £26,237.24 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £24,724.58

The Review of the Budget for October was agreed as presented.

52 **Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

52 **Planning Applications.**
None.

53 **Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

53 **Planning decisions**
None.

54 **Gohebiaeth**
54.01 Ystyriwyd e-bost ynglŷn â Mynwent Cei Newydd. Rhoddodd yr Aelodau ddiolch i'r Cyngor am ei gydweithrediad. Awgrymodd yr aelodau y dylid gosod arwydd ar y wal y tu mewn i'r fynwent.

54 **Correspondence**
54.01 New Quay Cemetery (Email) was considered. Members thanked the Council for their cooperation. Members suggested placing a sign on the inside of the cemetery wall.

55 **Materion Brys i'w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**
55.01 Cyfarfod Ymgynghorol 2016 – Penderfynwyd y byddai'r Cynghorwyr B Stones a Steve Hartley yn mynd. Nid oedd ganddynt unrhyw faterion i'w codi yn y cyfarfod.

55.02 Ystyried creu lle i fysus ollwng teithwyr ar waelod Heol Francis - eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

55 **Urgent Matters Brought Forward at the Discretion of the Chair**
55.01 Consultative Meeting 2016- It was agreed that Councillor B Stones and Steve Hartley would attend. They had no matters to be raised at the meeting.

55.02 Consideration for a drop off point at the bottom of Francis Street for buses-item on next agenda

55.03 Tocio ym Maesypwll – eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

55.04 Tynnid y baneri i lawr o 5 Tachwedd ymlaen.

55.03 Trashing of Maesypwll – item on next agenda

55.04 Banners to be taken down from the 5th of November.

56 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 28 Tachwedd 2016.

56 **Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held on Monday, 28 November 2016.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 31 October 2016**

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor
S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, M Rees

(7.00pm- 8.20pm)

**Procedure**
In the absence of the Clerk, Dana Jones, the notes for the meeting were taken by Councillor S Davies. The minutes would be composed by the Clerk accordingly.

The Chair welcomed to the meeting, Mr Gerwyn Jones, Group Manager Local Environmental Services to the meeting to discuss the issue raised at the last meeting. He outlined to Members his role and responsibilities within the Council and stated that addressing waste was one of his major roles. Issues discussed were the lack of refuse collection over the summer months compared to the number of tourists. In response, the Group Manager reported that the refuse model was currently being reviewed in partnership with Pembrokeshire County Council and could impact the collection fleet of the Council. He also reported that Ceredigion was the best performing authority in Wales for recycling, and new models for glass collection was currently being trailed in Cardigan.

In order to address the overflowing bins it was agreed that 240 litre wheelie bins would be placed on the beach to accommodate the vast amount of refuse as from March 2017.

The “Caru Cei” initiative was also discussed in order to have a positive effect on the community. It was agreed that this would be considered if monies were available from the extra money charged on holiday homes.

Other issues discussed was the need to address the dying weeds, the need to cut the overgrown area on the rear of the beach café/under the Cnwc and the need for lower slots on the bottle banks for shorter users. These requests would be referred to the relevant service.

The Chairman thanked Mr Jones for attending.

**Apologies**
Mrs Dana Jones, Town Clerk apologised for her inability to attend the meeting due to illness.

**Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
None.

**Minutes of the Meeting held on 26 September 2016**
49.01 The Minutes of the meeting of the 26 September 2016 were confirmed as a true record.

**Matters arising**
40.02/36.01 Councillor J Evans had discussed the hole with Andy Bligh, this would be addressed as soon as possible.
41.01 Jonathan Evans had requested if he could attend instead of Councillor G Hopley, however, this position was on behalf of NQTC. Councillor S Hartley would be interested depending on other commitments.

**County Councillor's Report**
50.01 Attended a Customer Service Structure Workshop
50.02 Harbour Users Meeting on the 20th. Jonathan Evans had requested to be my deputy on the FLAG group. I attend on behalf of NQTC.
50.03 Received several letters regarding the 25% on the rates of second/empty homes
50.04 The budget workshop was cancelled and the new date is the 8th November.
50.05 £25.00 cheque required for the Poppy Wreath. The Vice-Chairman, Councillor M Rees would attend as the Chair was away.
50.06 NQTC name would be placed on the NQ School Recipe book.

**Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

Opening Balance £26,633.40 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
51.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
51.02 Clerk back pay £72.56 (October)
51.03 ART Fabrications £58.60

Closing Balance £26,237.24 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £24,724.58

The Review of the Budget for October was agreed as presented.

**Planning Applications.**
None.

**Planning decisions**
None.

**Correspondence**
54.01 New Quay Cemetery (Email) was considered. Members thanked the Council for their cooperation. Members suggested placing a sign on the inside of the cemetery wall

**Urgent Matters Brought Forward at the Discretion of the Chair**
55.01 Consultative Meeting 2016- It was agreed that Councillor B Stones and Steve Hartley would attend. They had no matters to be raised at the meeting.

55.02 Consideration for a drop off point at the bottom of Francis Street for buses-item on next agenda

55.03 Trashing of Maesypwll – item on next agenda

55.04 Banners to be taken down from the 5$^{th}$ of November.

**Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held on Monday, 28 November 2016.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 28 Tachwedd 2016**

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd B Stones (Cadeirydd), y Cynghorwyr J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, D Potter ac M Rees

(7.00pm- 8.40pm)

56 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr S Davies a P Hopley am na fedrent ddod i'r cyfarfod oherwydd salwch.

Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd S Davies ar enedigaeth mab.

57 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Y Cynghorydd J Evans – amcangyfrif o bris Maesypwll.

58 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2016**
58.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2016 yn rhai cywir.

**Materion yn codi**
Anfonid llythyr arall i'r Gwasanaethau Technegol yn gofyn am glirio'r llethr islaw Cnwc y Clap ar fyrder.

59 **Adroddiad y Cynghorydd Sir**
59.01 Aeth i gyfarfod Cyngor Sir Ceredigion/Cyngor y Dref
59.02 Aeth i weithdy ar y gyllideb, a chynhelid un arall eto
59.03 Trafodwyd llochesi bws mewn Pwyllgor Craffu, a soniwyd fod cwmnïau yswiriant yn eu rhoi mewn categori risg uchel.

60 **Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo’r taliadau canlynol o’r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £26,237.24 (£1012.66 wedi’i roi o’r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
60.01 Cyflog a Threuliau’r Clerc £265.00
60.02 Cyflog yn ddyledus i’r Clerc £72.56 (mis Tachwedd)
60.03 Apêl y Pabi Coch £25.00

Balans Terfynol £25,874.68 (£1012.66 wedi’i roi o’r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £24,362.02

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Tachwedd fel y’i cyflwynwyd.

61 **Ceisiadau Cynllunio.**
**Ceisiadau Cynllunio Brys i’w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**

61.01 A161094 - Llain yn gyfagos i Arba Fach, Cnwc y Lili - NODWYD

61.02 A161042 - Towyn Villa, Heol y Bryn - NODWYD

62 **Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

63 **Gohebiaeth**
63.01 Trefniadau’r Nadolig – Prynid coeden ddeg troedfedd i’w rhoi y tu allan i’r Llyfrgell. Byddai’r Cynghorydd D Potter yn codi coeden ym mharc Penwig ei hun, ar ôl trafod â Chyngor Sir Ceredigion. Cytunodd yr Aelodau y gallai ddefnyddio’r cyflenwad trydan a’r golau.

63.02 E-bost oddi wrth Tim Dutnell ynglŷn â’r parc sgrialu – anfonid e-bost yn gofyn am syniadau i Gyngor y Dref eu hystyried, ac i ymholi a fyddai modd ffurfio grŵp i reoli’r parc fel y gellid ymgeisio am grantiau. Byddai Cyngor y Dref yn dal i dalu am yr yswiriant a’r archwiliadau.

63.03 Ymgynghoriad: nodwyd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020.

63.04 Anfonid y llythyr oddi wrth Gymdeithas Cei Newydd a’r Cyffiniau i’r gwasanaeth perthnasol. Roedd yr Aelodau o’r farn y dylai rhywun ddod i gynrychioli’r Gymdeithas mewn cyfarfodydd, gan fod y mater wedi’i drafod sawl gwaith o’r blaen.

64.04 Nodwyd Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2017.

64 **Materion Brys i'w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**

64.01 Byddai'r Cynghorydd D Potter yn holi am bris ar gyfer trwsio bwrdd Dylan Thomas ac yn trafod y darnau crochenwaith ag Angharad Taris.

64.02 Coed Maesypwll – CYMERADWYWYD y pris a gynigiwyd. Penderfynwyd hefyd ystyried pris ar gyfer gosod matiau artiffisial yn y pridd i atal chwyn.

64.03 Llythyr y Neuadd Goffa – PENDERFYNWYD gohirio'r mater tan y cyfarfod dilynol fel y gellid gwahodd Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd Goffa i'r cyfarfod ynghyd â swyddogion y Cyngor Sir. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu.

64.04 Anfonid llythyr i'r Arolygiaeth Gynllunio yn mynegi siom y Cyngor ynglŷn â'r penderfyniad ar Compton House.

65 **Trefniadau'r cyfarfod nesaf**

Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 20 Rhagfyr 2016.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 28 November 2016**

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, D Potter and M Rees

(7.00pm- 8.40pm)

56 **Apologies**
Councillor S Davies and P Hopley apologised for their inability to attend the meeting due to illness.

Congratulations were extended to Councillor S Davies on the birth of a baby boy.

57 **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
Councillor J Evans – Maesypwll quote

58 **Minutes of the Meeting held on 31 October 2016**
58.01 The Minutes of the meeting of the 31 October 2016 were confirmed as a true record.

**Matters arising**
A further letter would be sent to Technical Services requesting that the bank below Cnwc y Clap be cleared urgently.

59 **County Councillor's Report** 59.01 Attended CCC/Town Council meeting
59.02 Attended a budget workshop and the will be a another
59.03 Bus shelters discussed in Scrutiny and they were a high risk category with the insurance companies

60 **Finance**

It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

Opening Balance £26,237.24(£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
60.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
60.02 Clerk back pay £72.56 (October)
60.03 Poppy appeal £25.00

Closing Balance £25,874.68 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £24,362.02

The Review of the Budget for November was agreed as presented.

61 **Planning Applications.**
**Urgent Planning Applications Brought Forward at the Discretion of the Chair**

61.01 A161094- Plot adj to Arba Fach, Cnwc y Lili- NOTED

61.02 A161042 – Towyn Villa, Hill Street- NOTED

62 **Planning decisions**

None.

63 **Correspondence**

63.01 Christmas arrangements- A 10ft tree would be purchased for outside the Library. Councillor D Potter would erect a tree in his personal capacity in Penwig park subject to negotiations with Ceredigion County Council. Members agreed that he could use the electric supply and lights.

63.02 Email from Tim Dutnell regarding Skateboard park- an email would be sent requesting ideas for TC to consider, and enquire if group be set up to run the park in order that grants could be applied for. TC would continue to pay for the insurance and the inspection.

63.03 Consultation: Welsh in Education Strategic Plan 2017-2020 was noted.

63.04 Letter from New Quay and District Society would be sent to the relevant service. Members were of the opinion that a representative from the society should attend the meetings as this issue has been discussed on numerous occasions.

64.04 Ceredigion Crime & Disorder Strategic Assessment 2017 was noted.

64 **Urgent Matters Brought Forward at the Discretion of the Chair**

64.01 Councillor D Potter would seek a quote to repair the Dylan Thomas board and discuss with Angharad Taris regarding the ceramic disks.

64.02 Maesypwll Woodland- it was AGREED to the quote presented. It was also agreed that a quote for geo textile to alleviate weeds could be considered.

64.03 Memorial Hall letter – it was AGREED that the matter be deferred to the next meeting in order to invite the chair of the New Quay Hall Committee to attend the meeting together with officers from CCC. Member were of the opinion that the further information was required prior to a decision.

64.04 A letter would be sent to the planning inspectorate conveying the Council’s disappointment on their decision regarding Compton House.

65 **Arrangement for next meeting**

The next meeting would be held on Tuesday , 20 December 2016.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Fawrth, 20 Rhagfyr 2016**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd D Potter (Cadeirydd), y Cynghorwyr
S Davies, J Davies, J Evans, G Hopley, P Hopley, M Rees ac H Williams

(7.00pm- 8.50pm)

**Gweithdrefn**
Gan fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol, penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd D Potter yn cadeirio'r cyfarfod.

**65 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr B Stones, S Hartley ac M Rees am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**66 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dywedodd y Cynghorydd J Evans y cafodd gyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor Sir ar ôl iddo gyflwyno Cais am Ollyngiad. Yn anffodus, ni chynhaliwyd y cyfarfod i ystyried ei gais gan na fyddai'n ariannol ymarferol. Roedd y Swyddog Monitro wedi dweud wrth y Cynghorydd Evans y gallai fod yn bresennol yn y cyfarfod fel Aelod o Bwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd, ond y dylai ymadael â'r ystafell pan fyddai'r Cyngor yn ystyried y cais am gymorth ariannol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion. Yn unol â'r cyngor a roddwyd, gadawodd y Cynghorydd J Evans yr ystafell pan drafodwyd cais y Cyngor Sir am gymorth ariannol.

Dywedodd y Cynghorydd G Hopley ei bod hithau wedi trafod y mater â'r Swyddog Monitro, a oedd wedi dweud wrthi y gallai aros yn y cyfarfod a chymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais ar y Neuadd Goffa.

Datgelodd y Cynghorydd D Potter fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu o ran eitem 71.01 a gadawodd yr ystafell pan drafodwyd y cais hwnnw.

**67 Neuadd Goffa Cei Newydd**
Croesawodd y Cadeirydd Mrs Louise Harries, Cyfreithiwr a Mr Andrew Harries, Swyddog Ystadau a oedd wedi dod i'r cyfarfod ar ran Cyngor Sir Ceredigion, yn ogystal â Mr Alwyn Davies, Cadeirydd a Mr Kendall Evans, a ddaeth i gynrychioli Pwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd.

Soniodd Cadeirydd y Pwyllgor am hanes y Neuadd ers ei sefydlu ym 1926 a'i phwysigrwydd i'r Dref. Bu'r Pwyllgor yn rheoli'r neuadd ar ran Cyngor Sir Ceredigion ers 2009, meddai. Dywedodd fod oddeutu pymtheg i ugain o grwpiau'n defnyddio'r neuadd yn rheolaidd.

Soniodd fod Pwyllgor y Neuadd Goffa wedi derbyn cais i brydlesu'r Neuadd gan Gyngor Sir Ceredigion, ac felly i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r adeilad. Roedd y cais wedi peri pryder i'r Pwyllgor oherwydd y goblygiadau posib o ran costau, gan mai prin oedd incwm a chronfeydd wrth gefn y Neuadd. Roedd yr Aelodau hefyd wedi mynegi pryder am nad oedd pobl ifanc ar y Pwyllgor a fedrai gynorthwyo pe byddai Aelodau eraill am roi'r gorau iddi.  Awgrymwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus i hysbysu pobl y Dref o sefyllfa'r Pwyllgor, a'r angen i ddenu aelodau newydd ac ifanc i fod ar y Pwyllgor.

Gofynnodd Mr J Evans (Aelod o Bwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd) a fyddai modd cael copi o adroddiad ysgrifenedig y syrfëwr ar y brydles, a drafodwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau'r Cyngor Sir ar 20 Ionawr 2016. Ymatebodd y Swyddog Ystadau drwy ddweud fod yr adroddiad bellach ar ei hôl hi ac yn amherthnasol.

Soniodd y Cynghorydd G Hopley y gofynnodd am i'r Neuadd barhau fel yr oedd hi am flwyddyn arall.

Ar ôl i'r Swyddogion esbonio agweddau ar y brydles a chadarnhau y byddai adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet ar ôl i Gyngor y Dref ddod i benderfyniad, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod.

Gadawodd Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion yr ystafell, ac wedyn cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â chais Cyngor Sir Ceredigion. Penderfynwyd GOHIRIO'r mater tan y cyfarfod nesaf fel y gellid cael copi o adroddiad ysgrifenedig y syrfëwr ar y brydles a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ar 20 Ionawr 2016.

**68 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2016**
68.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2016 yn rhai cywir, yn amodol ar nodi y bu'r Cynghorydd H Williams yn bresennol.

**Materion yn codi**
68.02/63.01 Byddai'r Cynghorydd D Potter yn trefnu'r goeden ar gyfer y flwyddyn nesaf, a byddai'n gofyn i fusnesau gyfrannu.
68.03/63.02 Anfonid e-bost ar ôl y Nadolig.
68.04/61.01 Cysylltwyd â'r Swyddog Gorfodi gan y torrwyd y coed yn groes i argymhelliad yr arolygydd yn y caniatâd cynllunio.

**Adroddiad y Cynghorydd Sir**
69.01 Aeth i nifer o gyfarfodydd Craffu.

69.02 Bu'n trafod trwydded *Quay Fresh* a holi a roddwyd trwydded newydd.
69.03 Roedd nifer o wallau yn y rhestr o ffyrdd ar gau a ddosbarthwyd yn ddiweddar.
69.04 Nid oedd y Cyngor wedi derbyn y setliad terfynol o ran y gyllideb.

**Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £25,874.68 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
70.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
70.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc £72.56 (mis Rhagfyr)
70.03 Gwe Cambrian £60.00
70.04 Hywel Thomas £700.00

Balans Terfynol £24,777.12 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £23,264,46

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Rhagfyr fel y'i cyflwynwyd.

**71 Ceisiadau Cynllunio.**
71.01 Cais A161550 – Siop Popeth am Bunt, Cei Newydd - NODWYD

71.02 A161158 Seawinds, Heol Pengraig, Cei Newydd - NODWYD

**72 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**73 Gohebiaeth**
Ystyriwyd y materion canlynol:-
73.01 Praesept 2017-18 – cyn cael trafodaeth fanwl yn y cyfarfod nesaf, eid ati i gael yr wybodaeth ganlynol:-

- Amcangyfrif o bris ar gyfer paentio'r rheiliau o amgylch y maes parcio ym mhen uchaf y dref – byddai'r Cynghorydd D Potter yn holi am bris
- Anfonid e-bost arall i'r Gwasanaethau Technegol yn gofyn am fynd i'r afael â'r sbwriel oedd wedi cronni islaw Cnwc y Clap
- Anfonid cais i'r Gwasanaethau Technegol am dorri'r clawdd gyferbyn â NatWest hyd at y llwybr i orsaf y Bad Achub
- Byddai'r Cynghorydd J Davies yn rhoi adroddiad cryno ar yr amgueddfa, gan gynnwys nifer ymwelwyr
- Dyrennid £50.00 yn y gyllideb ar gyfer y potiau blodau ar Sgwâr Ucheldir
- Ceisid cadarnhad ynglŷn â pherchnogaeth y tir islaw'r maes parcio ger y Wellington, gan fod angen torri'r glaswellt.

**Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 23 Ionawr 2016 am 6.30pm gan y byddai gofyn ystyried y praesept yn fanwl.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Tuesday, 20 December 2016**

PRESENT: Councillor D Potter (Chairman), Councillor
S Davies, J Davies, J Evans,G Hopley, P Hopley, M Rees and H Williams

(7.00pm- 8.50pm)

**Procedure**
In the absence of Chairman and Vice-Chairman, it was agreed that the meeting be chaired by Councillor D Potter.

**65 Apologies**
Councillor B Stones, S Hartley and M Rees apologised for their inability to attend the meeting

**66 Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
Councillor J Evans reported that he had received advice from CCC Monitoring Officer as he had submitted an application for dispensation. Unfortunately, the meeting that was to consider his application had been cancelled as it could not be financially viable. She had advised Councillor Evans that he could be present at the meeting as a Member of New Quay Memorial Hall Committee and should leave the room when the Council were considering the request for financial assistance from CCC. In line with the advice, Councillor J Evans vacated the room during consideration of CCC request for financial assistance.

Councillor G Hopley reported that she had also discussed the matter with the Monitoring Officer and she had advised her that she could remain in the meeting and discuss and vote on the Memorial Hall.

Councillor D Potter declared a personal and prejudicial interest in 71.01 and vacated the room during consideration of this application.

**67 New Quay Memorial Hall**
The Chairman welcomed to the meeting Mrs Louise Harris, Solicitor and Mr Andrew Harris, Estates Officer from Ceredigion County Council together with Mr Alwyn Davies, Chairman and Mr Kendall Evans, New Quay Memorial Hall Committee.

The Chairman of the Committee presented a detailed background to the establishment of the hall since 1926 and its importance in the Town. He reported that since 2009 the Memorial Hall Committee had been running the hall on behalf of the Ceredigion County Council. He stated that the hall was well used by 15-20 groups.

He reported that the Memorial Hall Committee had been requested to lease the hall from the County Council and would therefore be also responsible for the maintenance of the building. This request had been a concern to the Committee due to the possible cost implications due to their limited income and reserves. Concerns were also raised by the Members that they did not have young members on the Committee that could assist the Committee if other Members wished to stand down. It was suggested that a public meeting could be held to inform the Town of the Committees' current position and the need to recruit new and younger members to the Committee.

Mr J Evans (Member of the NQ Memorial Hall Committee) requested if it was possible to receive a copy of the written report on the lease from the surveyor that was requested by the Charitable Trustee Committee on the 20$^{th}$ January 2015. In response, the Estates Officer report that the report was not relevant and was out of date.

Councillor G Hopley reported that she had requested that the hall could continue as they were for a further year.

Following clarification by Officers on the lease and that a report would be presented to Cabinet once a decision by Town Council was agreed, the Chairman thanked Officers for their attendance.

Once Members of the Committee and Officers vacated the room, further consideration was given to the request of Ceredigion County Council. Following discussion if was agreed to DEFER the matter to the next meeting in order that a copy of the written report on the lease from the surveyor that was requested by the Charitable Trustee Committee on the 20$^{th}$ January 2015 be requested.

**68 Minutes of the Meeting held on 28 November 2016**
68.01 The Minutes of the meeting of the 28 November 2016 were confirmed as a true record subject to noting that Councillor H Williams was in attendance.

**Matters arising**
68.02/63.01 A tree would be arranged by Councillor D Potter for next year and he would request the businesses to contribute.
68.03/63.02 An email would be sent after the Christmas period.
68.04/61.01 The Enforcement Officer had been contacted as the trees had been cut down against the inspectors' recommendation in the planning consent.

**County Councillor's Report**

69.01 Attended a number of scrutiny committees
69.02 Discussion regarding the Quay West licence and if the new licence had been granted
69.03 There had been a number of errors in the road closures notifications that had recently been circulated
69.04 The Council had not received the budget final settlement

**Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

Opening Balance £25,874.68 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
70.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
70.02 Clerk back pay £72.56 (December)
70.03 Gwe Cambrian £60.00
70.04 Hywel Thomas £700.00

Closing Balance £24,777.12 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £23,264,46

The Review of the Budget for December was agreed as presented.

**71 Planning Applications.**
71.01 Application A161550- Pound Shop, New Quay- NOTED

71.02 A161158 Seawinds, Lewis Terrace, New Quay- NOTED

**72 Planning decisions**
None.

**73 Correspondence**
Consideration was given the following:-
73.01 Precept 2017-18- prior to the detailed consideration of the precept at the next meeting the following information would be sought:-

- A quote for the painting of the railings around the top car park – Councillor D Potter would seek a quote.
- A further email be sent to Technical Services requesting a way forward in addressing the rubbish that had collected under Cnwc y clap
- A request would be sent to Technical Services that there was a need to cut the hedge from opposite Natwest to the path down to the lifeboat station
- Councillor J Davies would provide a short report on the museum to include visitor figures
- That £50.00 would be allocated in the budget for the flower pots in Uplands Square
- Clarity would be sought regarding the ownership of the land below wellington car park as it was required to be cut

**Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held on Monday, 23 January 2016 at 6.30pm as the precept would be considered in detail.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 23 Ionawr 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd B Stones (Cadeirydd), y Cynghorwyr
S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley D Potter, M Rees ac H Williams.

(6.30pm- 8.30pm)

**75 Ymddiheuriadau**
Dim.

**76 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dywedodd y Cynghorydd J Evans y cafodd gyngor eto gan Swyddog Monitro'r Cyngor Sir ar ôl iddo gyflwyno Cais am Ollyngiad. Yn anffodus, ni chynhaliwyd y cyfarfod i ystyried ei gais gan na fyddai'n ariannol ymarferol. Roedd y Swyddog Monitro wedi dweud wrth y Cynghorydd Evans y gallai fod yn bresennol yn y cyfarfod fel Aelod o Bwyllgor Neuadd Goffa Cei Newydd, ond y dylai ymadael â'r ystafell pan fyddai'r Cyngor yn ystyried y cais am gymorth ariannol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion. Yn unol â'r cyngor a roddwyd, gadawodd y Cynghorydd J Evans yr ystafell pan drafodwyd cais y Cyngor Sir am gymorth ariannol.

**77 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2016**
77.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2016 yn rhai cywir, yn amodol ar nodi fod y Cynghorydd M Rees wedi ymddiheuro am na fedrai fod yn bresennol.

**Materion yn codi**
77.02/69.02 Fel y gwyddai'r Aelodau eisoes, roedd *Quay Fresh* wedi cael trwydded ond ni fyddai'n cael gwaredu cymaint o gregyn. Wedi hynny cafwyd trafodaeth ynglŷn â thrwydded y cwmni i waredu cregyn at ddibenion domestig.
77.03 Roedd angen cael gwared â'r goeden Nadolig y tu allan i'r Llyfrgell. Dywedodd y Cynghorydd Potter y byddai'n trefnu coeden ym mharc Penwig eleni ar y cyd â busnesau. Awgrymwyd y gellid cynnal Ffair Nadolig Sefydliad y Bad Achub yn hwyrach fel y byddai'n cyd-fynd â chynnau'r goleuadau Nadolig. Awgrymwyd hefyd y gellid cynnal gorymdaith o'r goeden Nadolig ger y Llyfrgell i'r un ym mharc Penwig. Soniwyd hefyd y byddai angen bwrw golwg ar y twll ar gyfer y goeden Nadolig ym mharc Penwig ar fyrder. Byddai'r Cynghorydd Potter yn trefnu cael caead metel i'w roi dros y twll a'i gloi.
77.04 Byddai'r Cynghorydd Potter yn holi am bris ar gyfer torri'r llystyfiant ac ati ar y llethr.

**78 Neuadd Goffa Cei Newydd**
Ymhelaethodd y Cynghorydd J Evans ar gofnodion y cyfarfod blaenorol er budd yr Aelodau hynny oedd yn absennol. Roedd yr holl Aelodau bellach wedi cael copi o adroddiad y syrfëwr ac wedi cael cyfle i'w ystyried. Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd gofyn am gyfarfod rhwng Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd G Hopley a'r Cynghorydd J Evans i drafod a ellid cynnwys cymal indemnio yn y brydles i ddatgan y byddai Pwyllgor y Neuadd Goffa'n ymgymryd â phrydles y Neuadd pe byddai'n llwyddo gyda chais am grant gan y Lotri, ond y byddai rheolaeth y neuadd yn mynd yn ôl i'r hen drefn pe byddai'r cais yn methu.

**79 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
79.01 Roedd y Cabinet ar 17 Ionawr wedi penderfynu codi Treth y Cyngor 4%.
79.02 Aeth i weithdy ynglŷn â Phremiwm Treth y Cyngor ar gyfer ail gartrefi.
79.03 Cafodd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllun y Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd, a oedd yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru.
79.04 Cafodd *Quay Fresh* drwydded am flwyddyn i waredu 450 tunnell o gregyn bob blwyddyn, wedi gostwng o 2000 (fel y trafodwyd eisoes yn un o'r Materion yn Codi).
79.05 Byddai pen uchaf Rhes y Morwyr yn cau fel y gellid gweithio ar seilwaith y ffordd. Gwneid cais i gael llinellau melyn dwbl ar y gornel.

**80 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-

Balans Cychwynnol £24,777.12 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
80.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
80.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc £72.56 (mis Ionawr)
80.03 Neuadd Goffa Cei Newydd £45.00
80.04 Swyddfa Archwilio Cymru £276.75

Balans Terfynol £24,117.81 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £22,605.16

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Ionawr fel y'i cyflwynwyd.

**81 Ceisiadau Cynllunio.**
81.01 Cais A170014 - Ceulan, Heol y Cwm, Cei Newydd - NODWYD

**82 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**83 Gohebiaeth**
83.01 Praesept 2017-18 – Ystyriwyd yn fanwl Adroddiad y Swyddog Cyllid ar Gyllideb Arfaethedig Cyngor Tref Cei Newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar Ebrill 1 April 2017 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Ar ôl pennu'r gyllideb penderfynwyd cynyddu'r praesept 2% i £16,072.64 (Amgaeir y Gyllideb yn Atodiad A).

Ar ôl trafod y dogfennau a ganlyn, PENDERFYNWYD y byddai'r Clerc yn cyflwyno unrhyw sylwadau, fel y bo'n berthnasol;

83.02 Ymgynghoriad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ynglŷn â'r Asesiad o Lesiant Lleol.

83.03 Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2017

83.04 Ymgynghoriad ar Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2017-18

**Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 27 Chwefror 2016 am 6.30pm gan y byddai gofyn ystyried y praesept yn fanwl.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 23 January 2017**

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor
S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley D Potter, M Rees and H Williams

(6.30pm- 8.30pm)

**75 Apologies**
None.

**76 Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
Councillor J Evans reported that he had received advice again from CCC Monitoring Officer as he had submitted an application for dispensation. Unfortunately, the meeting that was to consider his application had been cancelled as it could not be financially viable. She had advised Councillor Evans that he could be present at the meeting as a Member of New Quay Memorial Hall Committee and should leave the room when the Council were considering the request for financial assistance from CCC. In line with the advice, Councillor J Evans vacated the room during consideration of CCC request for financial assistance.

**77 Minutes of the Meeting held on 20 December 2016**
77.01 The Minutes of the meeting of the 20 December 2016 were confirmed as a true record subject to noting that Councillor M Rees had tendered his apologises.

**Matters arising**
77.02/69.02 As Members were aware the Quay Fresh licence had been granted but at a reduced disposal amount. Discussion emanated regarding their licence to dispose of the shell for domestic use.
77.03 There was a need to dispose of the Christmas Tree outside the library. Councillor Potter stated that he would arrange for a tree in the Penwig park this year in conjunction with businesses. It was suggested that the RNLI Christmas Fair could be held later in the day to coincide with the turning on of the Christmas lights. It was also suggested that a parade could be done from the Christmas tree by the library to the one in Penwig park. It was also reported that the hole for the Christmas tree in the park needed addressing urgently. Councillor Potter would arrange for a locked metal plate be placed over the hole.
77.04 Councillor Potter would request a quote for the cutting of the bank.

**78 New Quay Memorial Hall**
Councillor J Evans elaborated on the minutes from the last meeting for the Members who were absent. All Members had now received a copy of the surveyor report and had considered it accordingly. Following discussion; it was agreed that a meeting be requested between the Leader of the Council, Councillor G Hopley and Councillor J Evans to discuss the possibility of an indemnity clause in the lease which stated that if the Memorial Hall Committee were successful in a lottery grant application they would take on the lease of the hall, however, if the grant was unsuccessful the running of the hall would be returned to status quo.

**79 County Councillor’s Report**
79.01 Cabinet had agreed on the 17 January to increase Council Tax by 4%.
79.02 Attended a workshop regarding the Rate Premium on second homes
79.03 Update on the FLAG scheme, awaiting confirmation from Welsh Government
79.04 Quay Fresh have had a licence for one year with the shell disposal reduced to 450 tonnes per annum from 2000 (as previously discussed under MA)
79.05 The top end of Marine Terrace was going to be closed and infrastructure work to be done on the road. A request for double yellow lines on the corner would be requested.

**80 Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-

Opening Balance £24,777.12 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
80.01 Clerk Salary & Expenses £265.00 80.02 Clerk back pay £72.56 (January)
80.03 New Quay Memorial Hall £45.00
80.04 Wales Audit Office £276.75

Closing Balance £24,117.81 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £22, 605.16

The Review of the Budget for January was agreed as presented.

**81 Planning Applications.**
81.01 Application A170014 - Ceulan, Heol y Cwm, New Quay- NOTED

**82**
**Planning decisions**
None.

**83 Correspondence**
83.01 Precept 2017-18- Detailed consideration was given to the Report of the Financial Officer upon the Budget Proposals of New Quay Town Council for the financial year commencing 1st April 2017 and ending 31st March 2018. Following the setting of the budget it was agreed to increase the precept by 2% to £16,072.64 (Budget attached as Appendix A)

Following consideration of the following documents, it was AGREED that the Clerk would submit any comments, if applicable;

83.02 CEREDIGION PSB Assessment of Local Well-being Public Consultation

83.03 Ceredigion Crime & Disorder Strategic Assessment 2017

83.04 CONSULTATION ON CEREDIGION COUNTY COUNCIL’S WELLBEING OBJECTIVES 2017-18

**Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held on Monday, 27 February 2017 at 6.30pm as the precept would be considered in detail.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 20 Chwefror 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd B Stones (Cadeirydd), y Cynghorwyr S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley M Rees ac H Williams.

(6.30pm- 8.30pm)

**85 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd D Potter am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

**86 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorwyr J Davies, J Evans ac S Evans fuddiannau personol o ran eitem 93.04.

**87 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017**
87.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017 yn rhai cywir, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:-
(i) Diwygio 79.05 i sôn am y man troi ble mae'r paent wedi treulio;
(ii) Cynhelid y cyfarfod nesaf am 7.00pm ac nid 6.30pm fel y nodwyd yn y cofnodion.

**88 Materion yn codi**
88.01/ 77.03 Roedd bwlch rhwng y caead ac ymyl y twll ar gyfer y goeden Nadolig. Eid i'r afael â hynny ar fyrder.
88.02/78.00 Roedd y Cynghorwyr G Hopley a J Evans wedi cwrdd ag Arweinydd a Swyddogion y Cyngor Sir brynhawn y cyfarfod, i drafod y Neuadd Goffa. Daethpwyd i gytundeb y byddai'r neuadd yn cael cyllid refeniw am flwyddyn arall fel y gellid ymgeisio am grant i adnewyddu'r Neuadd i safon dderbyniol. Roedd adroddiad a gomisiynwyd yn 2012/3 yn awgrymu y byddai angen tua £40/50,000 i wneud y gwaith. Dywedodd yr Arweinydd hefyd y gellid ymgeisio am Grant Cymunedol hyd at £25,000, ond y byddai'n rhaid cyfrannu 10% o arian cyfatebol at hynny. Gan fod gan y Neuadd £15,000 yn ei chronfeydd wrth gefn a bod y Cyngor Sir wedi neilltuo £30,000 yn ei gyllideb cyfalaf, roedd digon o arian ar gael i wella'r Neuadd. Byddai'r cynnig yn mynd gerbron y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a'r Cabinet er cymeradwyaeth. Roedd y Cynghorydd Evans hefyd o'r farn y dylid trosglwyddo perchnogaeth y Neuadd yn ôl i dref Cei Newydd, drwy Gyngor y Dref.

Roedd Pwyllgor y Neuadd Goffa bellach yn chwilio am aelodau newydd, ieuengach i fynd â'r Neuadd yn ei blaen, gan y byddai'r brydles yn para un mlynedd ar hugain. Bwriedid galw cyfarfod gyda defnyddwyr y Neuadd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa a gofyn i bobl helpu ar y Pwyllgor.

88.03 Mynegodd y Clerc a'r Aelodau bryder am fod y Cynghorydd D Potter wedi trefnu gwaith cyn i Gyngor y Dref gydsynio (roedd y Clerc eisoes wedi anfon e-bost at bob Aelod). Anfonid llythyr ato i fynegi'r pryderon a'i atgoffa ei bod yn ofynnol iddo gadw at y Côd Ymddygiad. Penderfynodd yr Aelodau y dylid cyflawni'r gwaith fel y trefnwyd, a bod Cyngor y Dref yn talu'r costau.

**89 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
89.01Aeth i Weithgor Gorchwyl a Gorffen ynglŷn â'r Premiwm Ardrethi, a chynhelid cyfarfod

arall y dydd Mercher dilynol
89.02 Aeth i Weithgor Gorchwyl a Gorffen ar Ffiniau Etholaethol, i drafod y ffiniau newydd ar gyfer Cei Newydd.
89.03 Cyfarfu â'r Cynghorydd Steve Hartley a Jonathan Evans i drafod y cynllun i godi pont gychod ar y pier.
89.04 Cyfarfu â'r Arweinydd fel y nodwyd yng nghofnod 88.02.

**90 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-
Balans Cychwynnol £24,117.81 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
90.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
90.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc £72.56 (mis Chwefror)
90.03 Un Llais Cymru £219.00

Balans Terfynol £23,561.25 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £22,048.59

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Chwefror fel y'i cyflwynwyd.

**91 Ceisiadau Cynllunio.**
91.01 Cais A170066 1 Gerddi'r Ffynnon - gor-ddatblygiad a fyddai'n difetha naws yr ardal cadwraeth

91.02 Cais A170118 1 Cliff Terrace - yn yr ardal cadwraeth.

**92 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**93 Gohebiaeth**
Ystyriwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

93.01 Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'- darllenodd y Cadeirydd yr wybodaeth berthnasol ynglŷn â Chynghorau Cymuned, er gwybodaeth. Nododd yr Aelodau'r argymhellion.

93.02 Nodwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion.

93.03 Nodwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Ymddiriedolaeth Cancr yn yr Arddegau.

94.03 Trafodwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Regata Bae Ceredigion a phenderfynwyd rhoi £50.00.

**94 Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf nos Lun, 20 Mawrth 2017 am 7.00p.m.

**95 Materion Brys i’w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**

95.01 Y pris ar gyfer gwagio’r potiau ar Sgwâr Ucheldir oedd £100.00. Roedd yr Aelodau’n fodlon ar hynny.

95.02 Gwneid archeb am fwy o sialc melyn ar gyfer y stensiliau, a chytunwyd y gallai glanhau’r ardal â chwistrell gwasgedd uchel fod yn rhatach ac yn werth ei ystyried.

95.03 Ceid trafodaeth ynglŷn â’r e-bost a anfonwyd ar ran y Cynghorydd Potter yn y cyfarfod nesaf, pan fyddai’n bresennol.

95.04 Gofynnid i’r Clwb Celf ail-baentio arwydd Cyngor Tref Ceinewydd ym mharc Penwig.

95.05 Holid am fwy o brisiau ar gyfer paentio’r rheiliau ar ben uchaf Sgwâr Ucheldir, gan mai dim ond un a dderbyniwyd hyd yn hyn.

95.06 Rhannwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â’r cynllun i godi pont gychod ar y pier, a phenderfynwyd y byddai cyngor y Dref yn dod yn bartner yn y cynllun, ac yn derbyn yr arian grant fel o’r blaen. Roedd cais am grant yn mynd rhagddo.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 20 February 2017**

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor
S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley M Rees and H Williams

(6.30pm- 8.30pm)

**85 Apologies**
Councillor D Potter apologised for his inability to attend the meeting.

**86 Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
Councillor J Davies, J Evans and S Evans declared a personal interest in 93.04.

**87 Minutes of the Meeting held on 23 January 2017**
87.01 The Minutes of the meeting of the 23 January 2017 were confirmed as a true record subject to the following amendments:-
(i) 79.05 amend to read on the turning area which had faded; and
(i) that the next meeting would be held at 7.00pm and not 6.30pm as stated in the minutes.

**88 Matters arising**
88.01/ 77.03 They remained a gap by the plate cover of the Christmas Tree. This would be addressed urgently
88.02/78.00 Councillors G Hopley and J Evans had that afternoon attended a meeting with the Leader of the Council and Offices regarding the Memorial Hall. They had agreed that the hall would be given revenue monies for a year in order to seek grant funding to bring the hall up to an acceptable standard. The report commissioned in 2012/3 indicated that around £40/50k was required for the improvements. The Leader also informed them that a Community Grant was available up to £25k but required 10% match funding. With the reserves of the hall of £15k and the monies allocated within the capital budget of CCC of £30k; the improvement costs were achievable. This proposal would be referred to the Charitable Trust Committee and Cabinet for approval. Councillor Evans was also of the opinion that the hall should be transferred back to the ownership of New Quay via Town Council.

The Memorial Hall Committee was now seeking new younger members for the Committee in order to proceed as the lease would be for 21 years. A meeting was due to be arranged with the users of the Committee to update them on the situation and to request their assistance on the Committee.

88.03 Concerns were expressed by the Clerk and Members that work was carried out via Councillor D Potter prior to agreement of the Council.(An email had already been sent by the Clerk to all Members) A letter would be sent to him expressing their concern and his requirement to abide by the Code of Conduct. Members agreed that the work should be completed accordingly and to the cost of the work that had been carried out.

**89 County Councillor's Report**
89.01Attended a Task & Finish Working Group on Premium Tax, a further meeting would be

held on Wednesday
89.02 Attended an Electoral Boundaries Task & Finish Working Group regarding the New Quay boundaries
89.03 Met with Councillor Steve Hartley and Jonathan Evans regarding the pier pontoon project
89.04 Met with the leader as stated previously in minute 88.02.

**90 Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-
Opening Balance £24,117.81 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).
90.01 Clerk Salary & Expenses £265.00 90.02 Clerk back pay £72.56 (February )
90.03 One Voice Wales £219.00

Closing Balance £23,561.25 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £22,048.59

The Review of the Budget for February was agreed as presented.

**91 Planning Applications.**
91.01 Application A170066 1 Spring Gardens- overdevelopment and destroying the character of the conservation area

91.02 Application A170118 1 Cliff Terrace- was in a conservation area.

**92**
**Planning decisions**
None.

**93 Correspondence**
Consideration was given to the following:-

93.01 White Paper ‘Reforming Local Government: Resilient and Renewed’- the relevant information regarding the Community Council was read out by the Chair for information. All Members noted the proposals accordingly.

93.02 Request for Financial assistance from YFC Ceredigion was noted.

93.03 Request for Financial assistance from the Teenage Cancer Trust was noted.

94.03 Request for Financial assistance from Cardigan Bay Regatta was considered and it was agreed to donate £50.00.

**94 Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held on Monday, 20 March 2017 at 7.00p.m.

**95 Urgent items – discretion of the Chair**

95.01 The cost to empty the pots in Upland Square was £100.00. Members agreed to the cost.

95.02 Further yellow chalk would be ordered for the stencils and it was agreed that power washing the area could be a cheaper option and would be considered.

95.03 The email sent on behalf of Councillor Potter would be discussed at the next meeting when he was in attendance.

95.04 The Art Club would be requested to repaint the New Quay Town Council sign in Penwig park

95.05 Further quotes would be sought for painting the railings at the top of Uplands Square as only one had been received to date.

95.06 An update on the pier pontoon project was provided and it was agreed that the Town Council would be a partner in the scheme by receiving the grant money as previously . Grant funding was now being sought.

Cofnodion **Cyfarfod CYNGOR Y DREF** a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Cei Newydd **nos Lun, 20 Chwefror 2017**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd B Stones (Cadeirydd), y Cynghorwyr S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, S Potter M Rees ac H Williams.

(7.00pm- 8.35pm)

**95 Ymddiheuriadau**
Dim.

**96 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y Cynghorwyr S Davies a G Hopley fuddiant personol o ran eitem 103.01.

**97 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017**
97.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017 yn rhai cywir, yn amodol ar gywiro cyfenw'r Cynghorydd S Davies (nid Evans).

**98 Materion yn codi**
98.01/88.01/ 77.03 Roedd y Cynghorydd G Hopley wedi llenwi'r bwlch.
98.02/88.03 Roedd eiddew'n dal ar y llwybr, ac eid i'r afael â hynny. Roedd malurion wedi cwympo y tu ôl i'r caffi ar y traeth ar ôl i'r Cyngor Sir fod yn torri'r llystyfiant ar y llethr. Anfonid e-bost i'r Cyngor Sir yn gofyn am gael gwared ohonynt.
98.03/88.02/78.00 Anfonodd Pwyllgor y Neuadd lythyr i hysbysu'r Cyngor Sir y dylid mynd â'r adroddiad gerbron y Cabinet, fel y gallai'r Pwyllgor fynd ati i sicrhau grantiau ar gyfer adnewyddu'r neuadd. Roedd y Cynghorydd J Evans wrthi'n chwilio am brisiau ar gyfer y gwaith angenrheidiol.
98.04/85.02 Câi'r stensiliau eu paentio cyn gynted â phosib (gan ddibynnu ar y tywydd), yn enwedig ar y palmentydd ar hyd y Ffordd Newydd, lle'r oedd baw cŵn yn broblem.
98.05/95.04 Byddai'r Cynghorydd J Davies yn gofyn i'r Clwb Celf baentio'r arwydd ym Mharc Penwig. Roedd gan y Cynghorydd J Evans baent. Cafwyd trafodaeth hefyd am yr hen arwydd ar Lôn Traethgwyn.  Byddai'r Cynghorydd J Davies yn mynd heibio Lôn Traethgwyn i weld a ellid adfer yr arwydd a'i gynnwys yng nghasgliad yr amgueddfa.
98.06/95.01 Roedd yno gennin Pedr yn y potiau, a byddent yn cael eu gwagio ar ôl i'r blodau wywo.
98.07/ Awgrymwyd gwahodd cynigion ar gyfer prosiectau cynaliadwy, fel y gellid ymgeisio am grant o gronfa Treth y Cyngor ar ail gartrefi.

**99 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
99.01 Aeth i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol i drafod ailstrwythuro'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, a fyddai'n digwydd yn 2018. Wedi hynny dim ond un rhif ffôn a fyddai ar gyfer pob ymholiad.
99.02 Bu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus yn trafod llochesi bws, ac roedd y cyngor Sir yn bwriadu rhoi deunydd o amgylch y paneli plastig fel eu bod yn haws eu cynnal a'u cadw. Trafodwyd effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y grantiau'r oedd Ceredigion yn elwa arnynt.
99.03 Aeth i gyfarfod Is-grŵp Premiwm Treth y Cyngor, ac yng nghyfarfod y Cyngor penderfynwyd trefnu cyfarfodydd â Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn ffurfio is-grŵp.

Byddai cyfarwyddyd yn dod gan Lywodraeth Cymru faes o law.

**100.00 Cyllid**
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau canlynol o'r cyfrifon:-
Balans Cychwynnol £23,561.25 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).
100.01 Cyflog a Threuliau'r Clerc £265.00
100.02 Cyflog yn ddyledus i'r Clerc £72.56 (Mawrth )
100.03 Regata Cei Newydd £50.00
100.04 J Evans (Inc Argraffu i'r Clerc) £101.90
100.05 B Stones £95.00 (Coeden Nadolig a sment)

Balans Terfynol £22,976.79 (£1012.66 wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer peiriant adfywio calonnau a £500.00 at brosiect Dylan Thomas).

Balans terfynol cyfrif Cyngor y Dref £21,464.13

Cymeradwywyd yr Adolygiad o Gyllideb Mis Mawrth fel y'i cyflwynwyd.

**101 Ceisiadau Cynllunio.**
Dim.

**102 Penderfyniadau Cynllunio**
Dim.

**103 Gohebiaeth**
Ystyriwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
103.01 Cais am gymorth ariannol oddi wrth Ysgol Cei Newydd – dywedodd yr Aelodau eu bod yn cefnogi'r cais, ond penderfynwyd ysgrifennu at Gadeirydd Cyngor yr Ysgol yn holi am eitemau penodol a phrisiau'r eitemau y dymunant eu prynu.

103.02 Penodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol a phennu eu cylchoedd gorchwyl – penderfynwyd penodi Mr Iorwerth Evans yn archwilydd mewnol a Grant Thornton yn archwilydd allanol.

103.03 Mainc Goffa – anfonid y manylion ymlaen i Gyngor Sir Ceredigion, gan nodi fod Cyngor y Dref am gael meinciau hawdd eu cynnal a'u cadw, i arbed ar gostau paentio. Soniwyd fod angen gwaith ar y meinciau y tu allan i'r Ganolfan Groeso ar fyrder, a phenderfynwyd anfon e-bost i'r Cyngor Sir i'r perwyl hwnnw.

104.04 Paentio meinciau – penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd yn llunio rhestr o'r holl feinciau a chreu map gyda ffotograffau i ddangos ble'r oedd pob un.

104.05 Prisiau ar gyfer paentio rheiliau – penderfynwyd derbyn y cynnig o £740.00 i wneud y gwaith.

**104 Trefniadau'r cyfarfod nesaf**
Cynhelid y cyfarfod nesaf ar ôl yr etholiad.

**105 Materion Brys i’w Trafod â Chydsyniad y Cadeirydd**

105.01 Soniodd y Cynghorydd G Hopley fod Tim (*Hungry Trout*) wedi rhoi gwybod iddi fod gan y Clwb Pêl-droed £1,300 i’w roi at y parc sgrialu. Nid oedd unrhyw ddiddordeb gan rieni’r defnyddwyr mewn ffurfio is-grŵp fel yr awgrymwyd. Cynigiodd y Cynghorydd Hopley y gellid defnyddio’r arian i lunio cais am grant ar gyfer draeniau a ffensys newydd.

105.02 Derbyniwyd y pris ar gyfer torri prysgwydd ar y llwybrau.

105.03 Rhannodd y Cynghorydd J Evans yr wybodaeth ddiweddaraf â’r Aelodau ynglŷn â hen fecws Towyn House, a fu’n destun trafod mewn cyfarfod diweddar o’r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

Minutes of a **Meeting** of the **TOWN COUNCIL** held at the Memorial Hall, New Quay on **Monday, 20 March 2017**

PRESENT: Councillor B Stones (Chairman), Councillor
S Davies, J Davies, J Evans, S Hartley, G Hopley, P Hopley, S Potter M Rees and H Williams

(7.00pm- 8.35pm)

**95 Apologies**
None.

**96Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest**
Councillor S Davies and G Hopley declared a personal interest in 103.01

**97 Minutes of the Meeting held on 20 February 2017**
9701 The Minutes of the meeting of the 20 February 2017 were confirmed as a true record subject amending the surname of Councillor S Davies in the minutes (previously Evans)

**98 Matters arising**
98.01/88.01/ 77.03 Councillor G Hopley had filled the gap accordingly.
98.02/88.03 Ivy remained on the path, this would be addressed. Shrubbery etc. had fallen behind the beach café following the cutting of the bank by CCC. An email would be sent to CCC requesting its removal.
98.03/88.02/78.00 The hall Committee had sent a letter informing CCC to proceed with a report to Cabinet in order that the Committee could claim grants for the improvement of the hall. Councillor J Evans was currently seeking quotes for works that required to be carried out.
98.04/85.02 The stencils would be painted as soon as possible (weather permitting) especially on the pavements on New Road which were problematic.
98.05/95.04 Councillor J Davies would request the Art Club to paint the sign in Penwig Park. Paint was available by Councillor J Evans. There was discussion also regarding an old sign on Brongwyn Lane. Councillor J Davies would visit Brongwyn Lane to ascertain if the sign could be restored and be part of the artefacts of the museum.
98.06/95.01 There were currently daffodils in the pots, therefore they would be cleared once the daffodils had withered.
98.07/ It was suggested that possible sustainable projects would be sought in order to apply for the grant from the second home council tax.

**99 County Councillor's Report**
99.01 Attended a Corporate Resources Scrutiny Committee regarding the re-structuring of the Customer Contact Centre which would commenced in 2018. There would be one telephone number for all enquires.
99.02 Thriving Communities Scrutiny Committee discussed bus shelters and CCC were seeking to "wrapping" the plastic panels so they were easier to up keep. The effect of Brexit on the grants that Ceredigion benefit from was discussed.
99.03 Attended a sub group of the Premium Tax and at Council it was agreed that meetings would be arranged with Town and Community Councils to establish a sub group. Awaiting

guidance from the Welsh Government.

**100.00 Finance**
It was AGREED to approve the following for payments to the accounts:-
Opening Balance £23,561.25 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).100.01 Clerk Salary & Expenses £265.00
100.02 Clerk back pay £72.56 (March )
100.03 New Quay Regatta £50.00
100.04 J Evans (Printer Ink for Clerk )£101.90
100.05 B Stones £95.00 (Xmas Tree & cement)

Closing Balance £22,976.79 (£1012.66 ring fenced for defibrillator and £500.00 towards the Dylan Thomas Project).

Closing balance for Town Council account £21,464.13

The Review of the Budget for March was agreed as presented.

**101 Planning Applications.**
None

**102**
**Planning decisions**
None.

**103 Correspondence**
Consideration was given to the following:-
103.01 Request for financial assistance from New Quay School- Members stated that they support the request, however, it was agreed to write to the Chair of the School Council requesting specific items and cost of the items they wished to purchase.

103.02 To appoint an Internal and External Auditor and agree their terms of reference- It was agreed to appoint Mr Iorwerth Evans as internal auditor and Grant Thornton as external auditor

103.03 Memorial Bench- details would be passed on to Ceredigion County Council. It was noted that NQTC were seeking low maintenance benches to save on painting costs. It was reported that the benches outside the TIC needed addressing urgently, and email would be sent to CCC accordingly.

104.04 Painting of benches- it was agreed that the Chair would produce a list of all benches and a map with photographs to indicate their location.

104.05 Quotes for Painting of railings- It was agreed to proceed with the quote for £740.00.

**104 Arrangement for next meeting**
The next meeting would be held following the election

**105 Urgent items – discretion of the Chair**

105.01 Councillor G Hopley reported that Tim (Hungry Trout) had informed her that £1300 was available from the football team towards the skateboard park. There was no interest on establishing a sub-committee by the parents of the users as suggested. It was proposed by Councillor Hopley that the monies could be used towards applying for a grant to address the drainage and fencing.

105.02 The footpath trashing quote was accepted.

105.03 Councillor J Evans updated Members on the entrance of the old Towyn Bakery that had been considered at a recent Charitable Trust Committee.